

ADOLYGIAD O'R BROSES O GYFLWYNO'R CYMWYSTERAU SGILIAU HANFODOL DIWYGIEDIG

Rhagfyr 2017

Cynnwys

	Tudalen
1. Crynodeb gweithredol	2
2. Y camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd	3
3. Cefndir	6
4. Nodau ac amcanion	7
5. Dull gweithredu	7
6. Canfyddiadau	10
6.1 Cryfderau'r cymwysterau	10
6.2 Dull cyrff dyfarnu o gydweithio	10
6.3 Asesu	13
6.3.1 Perthnasedd tasgau rheoledig	13
6.3.2 Eglurder a chysondeb tasgau rheoledig a chynlluniau marcio	15
6.3.3 Ailsefyll yn rhannol	17
6.3.4 Y rheol wyth wythnos	19
6.3.5 Amseru'r profion cadarnhau	21
6.4. Asesiadau cyfrwng Cymraeg	22
6.5 Prentisiaethau	23
6.5.1 Dull o addysgu ac asesu	23
6.5.2 Cyflawni fframweithiau prentisiaeth	24
6.5.3 Ariannu prentisiaethau	25
6.5.4 Lefelau'r Sgiliau Hanfodol sydd eu hangen ar gyfer prentisiaethau	27
6.5.5 Amser i ffwrdd o'r gwaith i astudio	28
7. Cynllun tymor hir ar gyfer y cymwysterau	30
8. Casgliad	31
Atodiad A: Cwestiynau a ofynnwyd wrth gyfweld â chyrff dyfarnu	32
Atodiad B: Cwestiynau a ofynnwyd wrth gyfweld â chanolfannau	35
Atodiad C: Cwestiynau'r arolwg dysgwyr	37

1. Crynodeb gweithredol

Cafodd cyfres Sgiliau Hanfodol Cymru o gymwysterau ei diwygio'n sylweddol gan Lywodraeth Cymru yn dilyn cyhoeddiad ei 'Hadolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru' yn 2012, a oedd yn argymell y dylid datblygu cyfres newydd o gymwysterau Sgiliau Hanfodol â dulliau asesu mwy cadarn. Datblygodd pedwar corff dyfarnu y cymwysterau diwygiedig, a gafodd eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru i'w haddysgu o fis Medi 2015 ymlaen.

Gwnaethom fonitro'r broses o gyflwyno'r cymwysterau diwygiedig ac, ym mis Ebrill 2016, gwnaethom nodi bod angen rhoi sylw agos ac, mewn rhai achosion, sylw uniongyrchol i agweddau ar y cymwysterau. Gwnaethom sicrhau bod y cyrff dyfarnu yn gweithredu i fynd i'r afael â'r pryderon brys, a phenderfynu y byddem yn adolygu'r broses o gyflwyno'r cymwysterau yn gynnar yn 2017.

O fis Ebrill i fis Mehefin 2017, gwnaethom gynnal rhaglen helaeth o waith ymgysylltu â rhanddeiliad er mwyn ceisio barn dysgwyr, canolfannau a chyrff dyfarnu ar y cymwysterau diwygiedig. Gwnaethom gyfweld â chynrychiolwyr o'r pedwar corff dyfarnu sy'n cynnig y cymwysterau a phersonél allweddol mewn 36 o ganolfannau sy'n darparu'r cymwysterau. Gwnaethom hefyd gynnal arolwg dysgwyr, a daeth dros 2,000 o ymatebion i law.

Roedd sawl un o ganfyddiadau'r adolygiad yn gadarnhaol:

- Mae canolfannau o'r farn bod y cymwysterau diwygiedig yn fwy trwyadl a chadarn na'r hen gymwysterau;
- Dywedodd llawer o ganolfannau eu bod wedi goresgyn nifer o'r heriau roeddent yn eu hwynebu ar y dechrau;
- Mae'r rhan fwyaf o ganolfannau yn darparu'r cymwysterau gan ddefnyddio ymarferwyr Sgiliau Hanfodol cymwys, rhywbeth nad oedd yn arfer cyffredin wrth ddarparu'r hen gymwysterau; ac
- Mae cyrff dyfarnu yn rhannu arbenigedd ac arfer da â'i gilydd.

Fodd bynnag, nododd yr adolygiad fod y broses o gyflwyno'r cymwysterau diwygiedig wedi bod yn heriol i ddysgwyr, canolfannau a chyrff dyfarnu. Ymhlith yr heriau hyn roedd:

- Cyhoeddi'r egwyddorion cynllunio yn hwyrach na'r disgwyl, a gwneud rhagor o newidiadau anfwriadol iddynt, a roddodd bwysau ar y cyrff dyfarnu ar y dechrau;
- Dull cyrff dyfarnu o gydweithio, a olygodd fod y gwaith o ddatblygu asesiadau yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl;
- Yr oedi wrth drefnu bod tasgau a phrofion ar gael, a oedd yn heriol i ganolfannau a dysgwyr.

Nododd ein hadolygiad nifer o faterion, pryderon a heriau cyfoes hefyd:

- Byddai dull cyrff dyfarnu o gydweithio yn elwa o fwy o fewnbwn strategol gan uwch aelodau o staff o fewn cyrff dyfarnu;
- Mae canolfannau a dysgwyr yn teimlo nad yw rhai o'r tasgau rheoledig presennol yn berthnasol o ran cyd-destun;
- Mae canolfannau a dysgwyr o'r farn bod rhai o'r tasgau rheoledig presennol yn aneglur;
- Mae canolfannau o'r farn bod rhai o'r cynlluniau marcio presennol yn aneglur a/neu'n anghyson â'r tasgau rheoledig;
- Mae canolfannau yn teimlo'n rhwystredig bod gofyn i ddysgwyr ailsefyll yr holl dasg reoledig os byddant yn methu un elfen;
- Mae'n heriol i ganolfannau lynu at y rheol wyth wythnos i gwblhau tasgau rheoledig;
- Mae canolfannau a dysgwyr yn teimlo nad yw'r amser a neilltuir i gwblhau rhai profion cadarnhau yn ddigonol;
- Mae llai o asesiadau ar gael yn Gymraeg nag yn Saesneg, ac ni chafodd y rhain eu cyhoeddi ar yr un pryd â'r fersiynau Saesneg;
- Mae darparwyr sy'n cynnig prentisiaethau, a'u dysgwyr, yn wynebu llawer o heriau eraill sydd y tu hwnt i'n pwerau rheoleiddio, gan gynnwys:
    - Barn darparwyr prentisiaethau nad oes digon o arian ar gael i ddarparu cymwysterau Sgiliau Hanfodol fel rhan o brentisiaethau;
    - Yr amser cyfyngedig a neilltuir gan ddarparwyr prentisiaethau i addysgu ac asesu cymwysterau Sgiliau Hanfodol;
    - Yr her sy'n gysylltiedig â chwblhau'r holl gymwysterau sydd eu hangen fel rhan o fframweithiau prentisiaeth;
    - Y ffaith bod gofyn i rai dysgwyr gwblhau cymwysterau Sgiliau Hanfodol ar lefel sylweddol uwch na'r lefel y cawsant eu hasesu arni i ddechrau; ac
    - Mae'n heriol i ddysgwyr gael amser i ffwrdd o'r gwaith i astudio.

Ceir barn gyffredin bod y cymwysterau diwygiedig yn fwy cadarn a thrwyadl na'r hen gymwysterau, a chefnogaeth eang i atgyfnerthu eu cynllun a'r ffordd y cânt eu hasesu. Fodd bynnag, mae'r broses o gyflwyno'r cymwysterau wedi bod yn heriol i ddysgwyr, canolfannau a chyrff dyfarnu, ac mae'n amlwg bod angen rhoi sylw i agweddau penodol ar y cymwysterau yn y byrdymor a'r tymor hir. Nod ein camau gweithredu yw mynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd gan yr adolygiad hwn a chefnogi'r broses o gyflwyno'r cymwysterau Sgiliau Hanfodol diwygiedig yn barhaus er budd dysgwyr yng Nghymru.

2. Y camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd

		I'w gwblhau erbyn
1	Byddwn yn sefydlu Bwrdd Goruchwylio Sgiliau Hanfodol. Bydd aelodau'r Bwrdd hwn yn cynnwys Cymwysterau Cymru, uwch gynrychiolwyr o'r pedwar corff dyfarnu sy'n cynnig y cymwysterau, a rhanddeiliaid allweddol. Bydd y Bwrdd yn goruchwylio camau gweithredu 2 i 8 isod a chyfeiriad strategol cymwysterau Sgiliau Hanfodol wrth symud ymlaen.	31 Ionawr 2018
2	Ar y cyd â chyrff dyfarnu, byddwn yn llunio canllawiau i ganolfannau er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu tasgau rheoledig a chynlluniau marcio sy'n benodol i ganolfannau.	1 Awst 2018
3	Byddwn yn gofyn i'r cyrff dyfarnu roi proses clir ac effeithlon ar waith ar gyfer sicrhau ansawdd a chymeradwyo tasgau rheoledig a chynlluniau marcio a ddatblygwyd gan ganolfannau.	1 Awst 2018
4	Byddwn yn gofyn i'r cyrff dyfarnu geisio adborth gan ganolfannau ar eglurder a chysondeb yr holl dasgau rheoledig a chynlluniau marcio ategol sydd ar gael. Byddwn yn gofyn i'r cyrff dyfarnu roi tystiolaeth i ni o'r camau gweithredu a gymerwyd ganddynt, gan gynnwys unrhyw ddiwygiadau neu newidiadau a wnaed ganddynt, yn dilyn adborth gan ganolfannau.	1 Awst 2018
5	Byddwn yn diwygio'r Egwyddorion Cynllunio Sgiliau Hanfodol er mwyn caniatáu i ddysgwyr ailsefyll y cymhwyster Sgiliau Hanfodol mewn Cyfathrebu yn rhannol ar lefel 2 a 3. Yna, byddwn yn gofyn i'r cyrff dyfarnu wneud y canlynol: a) gwahanu elfen cyflwyniad (rhan 3) y tasgau rheoledig a datblygu proses gyson ar gyfer caniatáu i ddysgwyr ailsefyll yn rhannol; b) rhoi'r cyfle i ailsefyll y cymhwyster Sgiliau Hanfodol mewn Cyfathrebu yn rhannol ar lefel 2 a 3.	31 Ionawr 2018 31 Mawrth 2018 1 Awst 2018
6	Byddwn yn diwygio'r Egwyddorion Cynllunio Sgiliau Hanfodol er mwyn nodi'n glir nad yw'r cyfnod o wyth wythnos i gwblhau tasgau rheoledig yn cynnwys gwyliau	31 Ionawr 2018

	academaidd a chyfnodau pan fydd dysgwr yn absennol am reswm dilys. Byddwn yn gofyn i'r cyrff dyfarnu ddiwygio manylebau eu cymwysterau a'u dogfennau canllaw yn briodol a chyfleu'r newidiadau hyn i ganolfannau.	
7	Byddwn yn gofyn i'r cyrff dyfarnu ddadansoddi'r data ar brofion cadarnhau er mwyn nodi a oes angen estyniad amser ar unrhyw brofion cadarnhau a'r estyniad priodol sydd ei angen. Byddwn yn gofyn i'r cyrff dyfarnu roi tystiolaeth i ni o'u gwaith dadansoddi, gan gynnwys rheswm dros wneud unrhyw newidiadau a gynigir ganddynt.	31 Mawrth 2018
8	Byddwn yn gofyn i'r cyrff dyfarnu, ar y cyd â chanolfannau, nodi'r galw am dasgau a phrofion Cymraeg, gan gynnwys y galw tebygol yn y dyfodol am dasgau a phrofion o'r fath. Byddwn yn gofyn i'r cyrff dyfarnu roi tystiolaeth i ni o'r camau gweithredu a gymerwyd ganddynt, y ffordd y maent yn ateb unrhyw alw presennol, a'r ffordd y byddant yn ateb y galw tebygol yn y dyfodol.	31 Mawrth 2018
9	Byddwn yn adolygu model asesu'r cymwysterau Sgiliau Hanfodol (sydd â dyddiad gorffen gweithredu o 2020) a threfnu bod fersiynau diwygiedig ar gael i'w haddysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2020 ymlaen. Bydd y gwaith diwygio hwn yn ceisio mynd i'r afael â'r pryderon sydd ar ôl a sicrhau bod y cymwysterau a'u hasesiadau yn dal i fod yn ddilys ac yn ddibynadwy. Ar yr un pryd, bydd hefyd yn mynd i'r afael â'u hydrinedd er mwyn diwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru yn llawnach.	Yr adeg pan fyddant yn cael eu haddysgu am y tro cyntaf ym mis Medi 2020 – dylid rhoi'r manylebau diwygiedig i ganolfannau yn brydlon er mwyn rhoi digon o amser iddynt wneud newidiadau.

3. Cefndir

Yn 2012, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chanfyddiadau yn dilyn ei hadolygiad o gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru[1], a oedd yn argymell adolygu cynnwys a dulliau asesu cymwysterau Sgiliau Hanfodol. Roedd yr adroddiad yn argymell y dylid datblygu cyfres newydd o gymwysterau Sgiliau Hanfodol sydd â 'dull asesu mwy cadarn, cyson a dibynadwy gyda mwy o allanoldeb'. Arweiniodd hyn at ddatblygu'r cymwysterau Sgiliau Hanfodol diwygiedig canlynol:

- Sgiliau Hanfodol mewn Cymhwyso Rhif (Lefel 1 – Lefel 3)
- Sgiliau Hanfodol mewn Cyfathrebu (Lefel 1 – Lefel 3)
- Sgiliau Hanfodol mewn Llythrennedd Digidol (Lefel mynediad 1 – Lefel 3)
- Sgiliau Hanfodol mewn Cyflogadwyedd (Lefel mynediad 3 – Lefel 3)

Mae'r cymwysterau hyn, wedi'u cyfuno â'r cymwysterau lefel mynediad mewn Cymhwyso Rhif a Chyfathrebu na chawsant eu diwygio, yn creu'r gyfres newydd o gymwysterau Sgiliau Hanfodol. Gweithiodd pedwar corff dyfarnu (Agored Cymru, City & Guilds, Pearson Education a CBAC) gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynnwys y cymwysterau diwygiedig ac, ar ôl hynny, cydweithiodd y cyrff dyfarnu er mwyn datblygu, sicrhau ansawdd, safoni a chymeradwyo'r asesiadau.

Mae'r cymwysterau diwygiedig, a gafodd eu cyflwyno i'w haddysgu o fis Medi 2015 ymlaen, yn wahanol iawn i'r hen gymwysterau, yn arbennig o ran y ffordd y cânt eu hasesu. Caiff y cymwysterau diwygiedig eu hasesu drwy dasg reoledig a phrawf cadarnhau[2], neu dasg reoledig a thrafodaeth strwythuredig[3], yn lle portffolio a asesir yn fewnol, sef yr hyn a ddefnyddiwyd fel rhan o'r hen gymwysterau. Mae dysgwyr, canolfannau a chyrff dyfarnu wedi wynebu heriau o ganlyniad i'r newidiadau hyn.

Gwnaethom fonitro'r broses o gyflwyno'r cymwysterau diwygiedig ac, ym mis Ebrill 2016, gwnaethom nodi bod angen rhoi sylw agos ac, mewn rhai achosion, sylw uniongyrchol i agweddau ar y cymwysterau. Gwnaethom nodi'r materion canlynol:

- Diffyg tasgau rheoledig ar gael;
- Oedi wrth drefnu bod profion cadarnhau ar gael; a
- Dim profion cadarnhau Cymraeg.

[1] Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru

[2] Sgiliau Hanfodol mewn Cymhwyso Rhif (Lefel 1 – Lefel 3) a Sgiliau Hanfodol mewn Cyfathrebu (Lefel 1 – Lefel 3).

[3] Sgiliau Hanfodol mewn Llythrennedd Digidol (Lefel mynediad 1 – Lefel 3) a Sgiliau Hanfodol mewn Cyflogadwyedd (Lefel mynediad 3 – Lefel 3).

Gwnaethom sicrhau bod y cyrff dyfarnu yn gweithredu i fynd i'r afael â'r pryderon brys, a phenderfynu y byddem yn adolygu'r broses o gyflwyno'r cymwysterau yn gynnar yn 2017.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r ffordd y gwnaethom gynnal yr adolygiad, ein canfyddiadau, a'r camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd yn dilyn yr adolygiad.

4. Nodau ac amcanion

Nod ein hadolygiad oedd nodi ac asesu pryderon rhanddeiliaid ac awgrymu camau gweithredu i fynd i'r afael â'r pryderon dilys. Am na chafodd cymwysterau lefel mynediad mewn Cymhwyso Rhif a Chyfathrebu eu diwygio yn 2015, canolbwyntiodd yr adolygiad ar y cymwysterau Sgiliau Hanfodol diwygiedig.

Amcanion yr adolygiad oedd:

- Ceisio barn dysgwyr a nodi'r heriau y maent yn eu hwynebu wrth astudio tuag at y cymwysterau diwygiedig;
- Ceisio barn canolfannau a nodi'r heriau y maent yn eu hwynebu wrth addysgu ac asesu'r cymwysterau diwygiedig;
- Ceisio barn cynrychiolwyr o gyrff dyfarnu a nodi'r heriau y maent wedi'u hwynebu wrth gyflwyno'r cymwysterau diwygiedig;
- Asesu'n feirniadol dilysrwydd y materion, y pryderon a'r heriau a nodwyd; ac
- Awgrymu camau gweithredu i gefnogi'r broses o gyflwyno'r cymwysterau'n barhaus ac yn llwyddiannus.

5. Dull gweithredu

Roedd yr adolygiad hwn yn canolbwyntio ar ymgysylltu â rhanddeiliaid a cheisio barn dysgwyr, canolfannau a chyrff dyfarnu ar y cymwysterau Sgiliau Hanfodol diwygiedig. Gwnaethom ganolbwyntio ar driongli a chadarnhau pryderon a, lle y bo'n bosibl, bennu eu hachosion gwaelodol. Roedd tri llinyn i'n dull gweithredu; cyfweld â chyrff dyfarnu, cyfweld â chanolfannau ac arolwg dysgwyr.

5.1 Cyfweld â chyrff dyfarnu

Yn gyntaf, gwnaethom gyfweld â chynrychiolwyr o'r pedwar corff dyfarnu yn ystod yr wythnos a ddechreuodd ar 3 Ebrill 2017. Gwnaethom gynnal cyfweliadau lled-strwythuredig â staff gweithredol ac uwch staff y cyrff dyfarnu. Roedd ein cwestiynau yn y cyfweliadau yn ceisio datblygu dealltwriaeth fanwl o gryfderau a gwendidau'r

cymwysterau diwygiedig a'r heriau y mae cyrff dyfarnu wedi'u hwynebu wrth gyflwyno'r cymwysterau. Gwnaeth ein cwestiynau yn y cyfweliadau gwmpasu:

- Y broses o gynllunio cymwysterau;
- Cynnwys, strwythur a dulliau asesu cymwysterau;
- Y broses o gynllunio a datblygu asesiadau;
- Dull cyrff dyfarnu o gydweithio;
- Y cymorth, y datblygiad proffesiynol parhaus a'r hyfforddiant a gynigir i ganolfannau;
- Adborth gan randdeiliaid;
- Eu barn ar y prif bryderon a nodwyd drwy ein gwaith monitro, gan gynnwys y rheol wyth wythnos, ailsefyll yn rhannol a'r diffyg tasgau rheoledig sy'n benodol i'r sector;
- Eu perthynas â ni;
- Eu barn ar gyfeiriad cymwysterau Sgiliau Hanfodol yn y dyfodol; ac
- Eu barn ar yr adolygiad sydd i'w gynnal.

Mae'r cwestiynau a ofynnwyd yn y cyfweliadau i'w gweld yn atodiad A. Gyda chaniatâd, cafodd y cyfweliadau eu recordio er mwyn cofnodi'r ymatebion yn llawn.

5.2 Cyfweld â chanolfannau

Rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2017, cynhaliodd tîm o'n staff gyfweliadau lled-strwythuredig â 36 o ganolfannau sy'n cynnig y cymwysterau diwygiedig. Gwnaethom gyfweld â 21 o ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith, 11 o golegau addysg bellach, dau garchar a dwy ganolfan dysgu oedolion yn y gymuned. Gwnaethom ddewis sampl a oedd yn cynrychioli'n fras y mathau o ganolfannau sy'n cynnig y cymwysterau ar sail sector, ardal ddaearyddol a chorff dyfarnu. Roedd y canolfannau'n amrywio'n sylweddol o ran maint, o golegau addysg bellach ag ychydig filoedd o ddysgwyr Sgiliau Hanfodol, i garchar â llai nag 20 o ddysgwyr Sgiliau Hanfodol. Gwnaethom gyfarfod ag amrywiaeth o gynrychiolwyr o'r canolfannau, gan gynnwys athrawon, aseswyr, swyddogion sicrhau ansawdd mewnol, penaethiaid adrannau, rheolwyr ansawdd ac uwch reolwyr. Cynhaliwyd y mwyafrif o'r cyfweliadau wyneb yn wyneb, ond gwnaethom hefyd gynnal tri chyfweliad drwy fideogynhadledd a thri dros y ffôn. Nod y cwestiynau oedd datblygu dealltwriaeth gynhwysfawr o farn y canolfannau ar y cymwysterau a nodi'r heriau y maent wedi'u hwynebu wrth addysgu ac asesu'r cymwysterau. Gwnaeth ein cwestiynau yn y cyfweliadau gwmpasu:

- Eu dull o addysgu ac asesu'r cymwysterau, gan gynnwys nifer yr oriau y maent yn eu neilltuo i wneud hyn;

- Profiad a chymhwysedd y staff a ddefnyddir ganddynt i addysgu ac asesu'r cymwysterau;
- Cryfderau a gwendidau'r dasg reoledig, y prawf cadarnhau a'r drafodaeth strwythuredig ac unrhyw heriau y maent wedi'u hwynebu wrth asesu dysgwyr;
- Asesiadau Cymraeg ac asesiadau dwyieithog;
- Y cymorth y maent wedi'i gael i addysgu ac asesu'r cymwysterau; ac
- Adborth y maent wedi'i gael gan ddysgwyr.

Mae'r cwestiynau a ofynnwyd yn y cyfweliadau i'w gweld yn atodiad B. Gyda chaniatâd, cafodd y cyfweliadau eu recordio er mwyn cofnodi'r ymatebion yn llawn.

5.3 Arolwg dysgwyr

Ym mis Ebrill 2017, gwnaethom lansio arolwg dysgwyr a oedd ar gael am gyfnod o bum wythnos, a daeth 2,359 o ymatebion i law[4]. Diben yr arolwg oedd rhoi cipolwg o farn dysgwyr ar y cymwysterau a nodi'r heriau y maent wedi'u hwynebu wrth astudio tuag atynt. Roedd y sampl yn un a ddewisodd ei hun, oherwydd gwnaethom drefnu bod yr arolwg ar gael i ddysgwyr drwy ein gwefan[5] a thynnu sylw dysgwyr, canolfannau a rhanddeiliaid allweddol at y ffaith bod yr arolwg ar gael. Gofynnodd yr arolwg i ddysgwyr:

- A gawsant ddigon o amser i ddysgu'r sgiliau sydd eu hangen i gwblhau'r asesiadau;
- Beth oedd eu barn ar y dasg reoledig, y prawf cadarnhau a'r drafodaeth strwythuredig (os oedd yn berthnasol);
- A oedd yn well ganddynt gael eu hasesu yn Gymraeg, ac os felly, a roddwyd y cyfle iddynt wneud hynny; ac
- A oedd unrhyw agwedd ar y cymwysterau wedi eu hatal rhag cyflawni eu potensial.

Roedd yr holiadur yn cynnwys cyfuniad o gwestiynau agored a chaeëdig. Defnyddiwyd y cwestiynau agored i fynnu ymatebion manwl gan ddysgwyr i'w defnyddio i ddatblygu dealltwriaeth o'u profiadau a'u barn. O'r 2,359 o ymatebion a gafwyd, roedd 1,427 ohonynt yn rhai manwl. Mae cwestiynau'r arolwg i'w gweld yn atodiad C.

[4] Mae hyn yn cynnwys ymatebion rhannol a llawn i'r arolwg.

[5] Rhoddwyd fersiynau papur o'r arolwg i ddau garchar.

6. Canfyddiadau

6.1 Cryfderau'r cymwysterau

O ystyried natur yr adolygiad hwn, mae llawer o'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar faterion a phryderon dysgwyr, canolfannau a chyrff dyfarnu a'r heriau y maent yn eu hwynebu o ran y cymwysterau Sgiliau Hanfodol diwygiedig. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod sawl cryfder i'r cymwysterau diwygiedig gan gynnwys:

- Cefnogaeth eang i wneud y cymwysterau diwygiedig yn fwy trylwyr na'r hen gymwysterau;
- Cefnogaeth eang i ddefnyddio asesiadau a gymeradwywyd yn allanol yn lle'r fethodoleg asesu a ddefnyddiwyd fel rhan o'r hen gymwysterau;
- Dywedodd llawer o ganolfannau eu bod wedi goresgyn nifer o'r heriau roeddent wedi'u hwynebu'n wreiddiol pan gafodd y cymwysterau diwygiedig eu cyflwyno gyntaf;
- Dywedodd sawl canolfan eu bod wedi gwneud newidiadau cadarnhaol i'w dull o addysgu ac asesu, sydd wedi'i helpu i oresgyn heriau;
- Mae cyrff dyfarnu yn rhannu arbenigedd ac arfer da â'i gilydd; ac
- Mae'r rhan fwyaf o ganolfannau yn defnyddio ymarferwyr Sgiliau Hanfodol cymwys i addysgu ac asesu'r cymwysterau diwygiedig, rhywbeth nad oedd yn arfer cyffredin wrth addysgu ac asesu'r hen gymwysterau.

Mae gweddill yr adroddiad yn canolbwyntio ar y materion a godwyd a'r pryderon a fynegwyd gan ddysgwyr, canolfannau a chyrff dyfarnu a'r camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd i ymateb i'r rhain.

6.2 Dull cyrff dyfarnu o gydweithio

Wrth gyfweld â chyrff dyfarnu, cydnabu pob un o'r pedwar corff dyfarnu fod y broses o gyflwyno'r cymwysterau diwygiedig wedi bod yn heriol. Gwnaethant nodi nifer o ffactorau a effeithiodd ar y broses gychwynnol o gyflwyno'r cymwysterau, gan gynnwys: yr egwyddorion cynllunio, a gafodd eu cyhoeddi'n hwyrach na'r disgwyl a'u newid ymhellach yn anfwriadol (e.e. dileu'r graddau o'r cymhwyster Sgiliau Hanfodol mewn Cyflogadwyedd yn syth cyn lansio'r cymwysterau); anghysondeb o ran safonau'r cymhwyster Sgiliau Hanfodol mewn Cyflogadwyedd, a arweiniodd at ddiwygio'r safonau ym mis Tachwedd 2016; a diffyg rhaglen beilot gynhwysfawr. Dywedodd cyrff dyfarnu fod y materion hyn wedi effeithio ar y gwaith o ddatblygu tasgau a phrofion ar ôl hynny ac wedi arwain at gyflwyno'r cymwysterau ym mis Medi 2015 pan nad oedd digon o asesiadau ar gael. Roedd hyn yn golygu nad oedd cyrff dyfarnu a chanolfannau'n gallu paratoi'n effeithiol ar gyfer y cymwysterau diwygiedig.

Er gwaethaf yr heriau cychwynnol hyn, mae'r cyrff dyfarnu wedi cydweithio er mwyn goresgyn llawer o'r heriau a oedd yn eu hwynebu. Mae pedwar corff dyfarnu yn cydweithio ar gyfres o gymwysterau yn rhywbeth unigryw yng Nghymru ar hyn o bryd, a dywedodd y cyrff dyfarnu fod cryfderau a gwendidau i'r dull gweithredu hwn. Gwnaethant ddweud bod cydweithio wedi arwain at gyflwyno asesiadau safonedig a rhannu arbenigedd ac arfer da. Cawsom sylwadau gan gyrff dyfarnu megis:

> *"Mae wedi arwain at ganlyniadau gwell oherwydd yr arbenigedd amrywiol yn y grŵp. Mae gan bob un ohonom fathau gwahanol o arferion, ac yn y diwedd gwnaethom dynnu arferion gorau o amrywiaeth o'r rhain, sydd wedi bod yn broses ymgynghori ddefnyddiol."*

> *"Mae manteision i ddysgu, manteision i effeithlonrwydd a phob math o fanteision i ansawdd."*

> *"O safbwynt cadarnhaol ar gyfer y canolfannau a'r ymgeiswyr, mae un set gytûn o ddeunyddiau asesu ar gael, felly nid yw corff dyfarnu A i'w weld yn haws nac yn fwy heriol na chorff dyfarnu B. Yn flaenorol, y broblem oedd y farn bod safonau'n amrywio rhwng y cyrff dyfarnu."*

Fodd bynnag, nododd y cyrff dyfarnu wendidau cydweithio hefyd, a'r un mwyaf nodedig oedd ei bod yn cymryd mwy o amser i ddatblygu a chymeradwyo tasgau a phrofion a threfnu eu bod ar gael i ganolfannau. Ym marn rhai o'r cyrff dyfarnu, dyma un o'r rhesymau dros yr oedi cychwynnol wrth drefnu bod y profion cadarnhau ar gael yn gynnar yn 2016. Daeth sylwadau i law megis:

> *"Cydweithio oedd y peth anodd i ddechrau. Mae sicrhau bod hynny'n gweithio wedi cymryd amser. Mae gennych bedwar corff dyfarnu gwahanol â phrosesau gwahanol a ffyrdd gwahanol o weithio. Gallem fod wedi ymchwilio i rai meysydd yn fwy trylwyr cyn dechrau datblygu'r deunyddiau a chynllunio pethau."*

> *"Pe bai hyn yn rhywbeth a gafodd ei deilwra i gyrff dyfarnu unigol, gallem fod wedi cyflwyno deg tasg yn llawer cyflymach. Pan fydd gennych sefydliadau o feintiau gwahanol, mae gennych lefelau gwahanol o fiwrocratiaeth i fynd i'r afael â hi o ran cyhoeddi."*

Er gwaethaf yr heriau, roedd y cyrff dyfarnu'n teimlo eu bod wedi goresgyn llawer o'r heriau cychwynnol roeddent yn eu hwynebu ac y dylai'r cydweithio barhau. Cydnabu'r cyrff dyfarnu fod y Grŵp Rheoli Asedau, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob

corff dyfarnu, wedi bod yn effeithiol o ran cefnogi'r gwaith o ddatblygu tasgau a phrofion a safoni canllawiau asesu. Fodd bynnag, gwnaethant gydnabod hefyd nad yw'r grŵp wedi cael digon o fewnbwn strategol gan uwch staff rhai cyrff dyfarnu, sy'n golygu nad yw materion wedi cael eu huwchgyfeirio'n briodol mewn cyrff dyfarnu. Cawsom sylwadau gan gyrff dyfarnu megis:

> *"Rwy'n meddwl bod angen rhyw fath o system fewnol arnom yn y pedwar corff dyfarnu er mwyn pwyso a mesur yn fwy strategol. Mae gennym grŵp gweithredol sy'n ymdrin â rhai materion strategol, ond nid yw'n ymdrin â materion mwy o faint. Mae angen i'r byrddau oruchwylio'n strategol."*

> *"Rwy'n meddwl y byddai hynny (grŵp strategol) yn synhwyrol a bod hynny ar goll. Roedd staff cyrff dyfarnu yn anfodlon uwchgyfeirio materion. Yn siarad o fy mhrofiad fy hun, pan uwchgyfeiriais fater yn fewnol, cefais sgwrs gyfeillgar gyda'r person arall yn y corff dyfarnu yn hytrach nag uwchgyfeirio'r mater mewn gwirionedd i'r Swyddog Cyfrifol. Rwy'n meddwl bod sawl un arall wedi cael yr un broblem."*

Roedd pob un o'r cyrff dyfarnu'n credu'n gryf y dylid cael mwy o fewnbwn strategol gan uwch staff cyrff dyfarnu wrth wneud penderfyniadau allweddol ynghylch cymwysterau Sgiliau Hanfodol. Roedd y pedwar corff dyfarnu yn gryf o blaid creu grŵp strategol a fyddai'n ategu'r Grŵp Rheoli Asedau ac yn goruchwylio cyfeiriad strategol cymwysterau Sgiliau Hanfodol. Felly, byddwn yn sefydlu Bwrdd Goruchwylio Sgiliau Hanfodol. Bydd hyn yn fodd i newid ffocws y Grŵp Rheoli Asedau a'i wneud yn grŵp gweithredol sy'n adrodd i'r Bwrdd Goruchwilio Sgiliau Hanfodol. Bydd aelodau'r Bwrdd hwn yn cynnwys Cymwysterau Cymru, uwch gynrychiolwyr o'r pedwar corff dyfarnu sy'n cynnig y cymwysterau, a rhanddeiliaid allweddol. Bydd y Bwrdd yn goruchwylio camau gweithredu 2 i 8 a amlinellir yn yr adroddiad hwn a chyfeiriad strategol cymwysterau Sgiliau Hanfodol wrth symud ymlaen. Byddwn yn cydweithio'n agos â'r cyrff dyfarnu, a rhanddeiliaid eraill, er mwyn sefydlu'r Bwrdd a chytuno ar y cylch gorchwyl.

Y camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd

		I'w gwblhau erbyn
1	Byddwn yn sefydlu Bwrdd Goruchwylio Sgiliau Hanfodol. Bydd aelodau'r Bwrdd hwn yn cynnwys Cymwysterau Cymru, uwch gynrychiolwyr o'r pedwar corff dyfarnu sy'n cynnig y cymwysterau, a rhanddeiliaid allweddol. Bydd y Bwrdd yn goruchwylio camau gweithredu 2 i 8 fel yr	31 Ionawr 2018

	amlinellir yn yr adroddiad hwn a chyfeiriad strategol cymwysterau Sgiliau Hanfodol wrth symud ymlaen.	

6.3 Asesu

Caiff y cymwysterau diwygiedig eu hasesu drwy dasg reoledig a phrawf cadarnhau[6], neu dasg reoledig a thrafodaeth strythuredig[7], yn lle'r portffolio a asesir yn fewnol, sef yr hyn a ddefnyddiwyd fel rhan o'r hen gymwysterau. Gwnaethom nodi bod canolfannau o blaid y trylwyredd ychwanegol a gynigir gan y dulliau asesu diwygiedig. Fodd bynnag, mae adborth gan ddysgwyr a chanolfannau yn awgrymu bod nifer o heriau yn effeithio ar y broses o gyflwyno'r asesiadau yn effeithiol ar hyn o bryd, sef:

- Mae canolfannau a dysgwyr yn teimlo nad yw rhai o'r tasgau rheoledig presennol yn berthnasol o ran cyd-destun;
- Mae canolfannau a dysgwyr o'r farn bod rhai o'r tasgau rheoledig presennol yn aneglur;
- Mae canolfannau o'r farn bod rhai o'r cynlluniau marcio presennol yn aneglur a/neu'n anghyson â'r tasgau rheoledig;
- Mae canolfannau yn teimlo'n rhwystredig bod gofyn i ddysgwyr ailsefyll yr holl dasg reoledig os byddant yn methu un elfen;
- Mae'n heriol i ganolfannau lynu at y rheol wyth wythnos i gwblhau tasgau rheoledig; ac
- Mae canolfannau a dysgwyr yn teimlo nad yw'r amser a neilltuir i gwblhau rhai profion cadarnhau yn ddigonol.

Ymdrinnir â'r pryderon hyn yn fanylach yn yr adrannau nesaf.

6.3.1 Perthnasedd tasgau rheoledig

Roedd y rhan fwyaf o ganolfannau yn gryf o'r farn bod nifer gyfyngedig o dasgau rheoledig ar gael sy'n berthnasol o ran cyd-destun. Rhoddwyd enghreifftiau megis 'Gofod-deithio', 'Microsglodynnu eich Ci' a 'Gwyliau Gartref' ac, ym marn canolfannau, nid oeddent yn berthnasol, yn cynnwys digon o gyd-destun nac yn ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddysgwyr. Daeth sylwadau i law megis:

> *"Mae angen dewis helaethach o bapurau, ac mae angen i'r rhain fod yn fwy perthnasol i anghenion pobl ifanc." (Darparwr dysgu seiliedig ar waith)*

[6] Sgiliau Hanfodol mewn Cymhwyso Rhif (Lefel 1 – Lefel 3) a Sgiliau Hanfodol mewn Cyfathrebu (Lefel 1 – Lefel 3).

[7] Sgiliau Hanfodol mewn Llythrennedd Digidol (Lefel mynediad 1 – Lefel 3) a Sgiliau Hanfodol mewn Cyflogadwyedd (Lefel mynediad 3 – Lefel 3).

"Diffyg amrywiaeth alwedigaethol. Nifer gyfyngedig o dasgau, ac nid yw rhai ohonynt yn berthnasol yn alwedigaethol i rai grwpiau." (Coleg addysg bellach)

"Yr hyn sy'n peri ofn iddynt yw perthnasedd y pwnc. Os yw'n rhywbeth sy'n gyfarwydd iddynt, maent yn fwy tueddol o ymwneud ag ef. Pethau fel diodydd chwaraeon neu ficrosglodynnu cŵn i ddysgwyr iechyd a gofal cymdeithasol. Os na allant ei gysylltu â'u gwaith bob dydd, er mwyn ei wneud yn berthnasol a'u bod yn gallu gweld y cysylltiad, nid oes gobaith gennym ennyn diddordeb y dysgwyr." (Darparwr dysgu seiliedig ar waith)

"Gyda'r heddlu a Gwasanaeth Ambiwlans Cymru – mae'r rhain yn gleientiaid mawr ac maent am weld tasgau sy'n fwy priodol i'w gweithleoedd ... Nid yw gofyn i uwch staff yn y gwasanaeth heddlu gwblhau tasg am fynd ar eu gwyliau wedi bod yn boblogaidd." (Darparwr dysgu seiliedig ar waith)

Roedd adborth gan ddysgwyr a gwblhaodd ein harolwg yn cefnogi'r farn hon. Daeth sylwadau i law megis:

"Tasg hir iawn. Dim cysylltiad â chyd-destun y cwrs rheoli dan sylw." (Dysgwr addysg bellach)

"Rwy'n dilyn cwrs cerbydau modur, ac rwyf wedi bod yn ymgymryd â thasg reoledig ar wyliau gartref. Nid yw'n berthnasol o gwbl i fy nghwrs yn fy marn i." (Dysgwr addysg bellach)

"Roedd y pwnc yn benodol iawn, ac nid oedd cyfle i'w gysylltu â gwybodaeth na phrofiad o'r gweithle." (Dysgwr addysg bellach)

Roedd canolfannau a dysgwyr o'r farn y dylai tasgau fod yn fwy perthnasol a chael eu cyd-destunoli. Awgrymodd llawer o ganolfannau hefyd y byddai tasgau sy'n berthnasol o ran cyd-destun yn ennyn diddordeb dysgwyr yn well. Mae creu tasgau rheoledig sy'n berthnasol o ran cyd-destun ar gyfer yr ystod amrywiol o ganolfannau sy'n cynnig y cymwysterau a'r dysgwyr sy'n ymgymryd â'r cymwysterau yn heriol iawn i gyrff dyfarnu. Mae hyn oherwydd ystod y wybodaeth sydd ei hangen sy'n benodol i'r pwnc a'r amser sylweddol sydd ei angen i ddatblygu tasgau rheoledig sy'n addas at y diben. Mae gan gyrff dyfarnu broses ar waith i helpu canolfannau i ddatblygu eu tasgau rheoledig a'u cynlluniau marcio eu hunain. Fodd bynnag, roedd yn ddiddorol nodi mai dim ond ychydig iawn o ganolfannau oedd yn ymwybodol y gallent ddatblygu eu tasgau rheoledig eu hunain, a bod hyd yn oed llai o ganolfannau wedi datblygu eu rhai eu hunain. Mynegodd sawl canolfan ddiddordeb mewn datblygu eu tasgau eu hunain a, thrwy ddefnyddio arbenigedd pynciau canolfannau, gellid datblygu tasgau ychwanegol i ateb y galw hwn. Fodd bynnag, os yw canolfannau am ddatblygu tasgau priodol, mae angen canllawiau clir a

chynhwysfawr. Ar y cyd â chyrff dyfarnu, byddwn yn llunio canllawiau i ganolfannau er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu tasgau rheoledig a chynlluniau marcio sy'n benodol i ganolfannau.

Wrth i ganolfannau ddechrau datblygu eu tasgau rheoledig â chyd-destun eu hunain, bydd angen i gyrff dyfarnu ddefnyddio dull cyson o gymeradwyo tasgau rheoledig a ddatblygwyd gan ganolfannau. Bydd angen i'r cyrff dyfarnu ystyried a fydd eu dull presennol o sicrhau ansawdd a chymeradwyo tasgau rheoledig a chynlluniau marcio drwy gydweithio yn briodol ac yn hawdd ei reoli. Byddwn yn gofyn i'r cyrff dyfarnu sicrhau bod ganddynt broses clir ac effeithlon ar waith ar gyfer sicrhau ansawdd a chymeradwyo'r tasgau rheoledig a chynlluniau marcio hyn.

Y camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd

		I'w gwblhau erbyn
2	Ar y cyd â chyrff dyfarnu, byddwn yn llunio canllawiau i ganolfannau er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu tasgau rheoledig a chynlluniau marcio sy'n benodol i ganolfannau.	1 Awst 2018
3	Byddwn yn gofyn i'r cyrff dyfarnu roi proses glir ac effeithlon ar waith ar gyfer sicrhau ansawdd a chymeradwyo tasgau rheoledig a chynlluniau marcio a ddatblygwyd gan ganolfannau.	1 Awst 2018

6.3.2 Eglurder a chysondeb tasgau rheoledig a chynlluniau marcio

Dywedodd y rhan fwyaf o'r canolfannau fod rhai tasgau yn aneglur. Yn arbennig, gwnaethant sôn am gyfarwyddiadau hirwyntog ac amwys a therminoleg sy'n rhy gymhleth i rai dysgwyr ei deall. Roedd yr adborth o'r arolwg dysgwyr yn sôn am hyn hefyd. Daeth sylwadau i law megis:

> *"Ar y cyfan, mae iaith y tasgau yn gymhleth ac yn ddryslyd." (Carchar)*
>
> *"Mae'r derminoleg a ddefnyddir yn y dasg Cymhwyso Rhif yn rhy anodd i ddysgwyr ei deall." (Darparwr dysgu seiliedig ar waith)*
>
> *"Roedd y dasg yn ddryslyd a chafodd ei chyfleu'n wael ... roedd iaith y profion hyn yn amwys, yn rhy ragnodol ac yn ailadroddus. Roedd fel petai'r tasgau'n gorgyffwrdd, ac roedd y pynciau'n amherthnasol iawn." (Dysgwr)*
>
> *"Teimlais fod y dasg reoledig wedi'i geirio mewn ffordd gymhleth, pan oedd gofyn i ni wneud rhywbeth syml mewn gwirionedd. Mae hynny'n anffodus iawn, a*

byddwn yn dychmygu bod y bobl sydd â'r sgiliau sydd eu hangen yn methu'r dasg gan nad ydynt yn deall yr hyn y mae gofyn iddynt ei wneud." (Dysgwr)

Yn ogystal, nododd dros hanner y canolfannau y gwnaethom gyfweld â nhw fod y cynlluniau marcio yn aneglur a bod anghysondebau rhwng y tasgau rheoledig a'r cynlluniau marcio ategol, a olygodd bod heriau'n codi wrth farcio'r tasgau. Daeth sylwadau i law megis:

"Rwy'n meddwl y gall y canllaw marcio fod yn amwys, ac nid yw bob amser yn gofyn i'r dysgwr nac yn dweud wrtho beth yn union rydym yn chwilio amdano." (Darparwr dysgu seiliedig ar waith)

"Nid yw'r cynlluniau marcio ar gyfer y tasgau rheoledig wedi bod yn glir, ac mae'r tiwtoriaid wedi gorfod eu dehongli'n helaeth." (Darparwr dysgu seiliedig ar waith)

Er bod canolfannau a dysgwyr wedi dweud nad yw tasgau rheoledig a chynlluniau marcio yn ddigon clir a chyson, ychydig iawn o ddysgwyr a chanolfannau oedd wedi rhoi manylion penodol y tasgau a'r cynlluniau marcio roeddent yn cyfeirio atynt. Roedd hefyd yn anodd darganfod a oedd y materion hyn yn rhai hanesyddol sydd eisioes wedi'i datrys gan y cyrff dyfarnu neu'n rhai parhaus. Mae'r cyrff dyfarnu wedi cynnal digwyddiadau safoni cydweithredol lle mae arbenigwyr Sgiliau Hanfodol wedi craffu ar y tasgau rheoledig, ac nid ydynt wedi nodi bod tasgau rheoledig a chynlluniau marcio yn aneglur ac yn anghyson. Mae angen gwneud rhagor o waith i bennu a yw'r tasgau rheoledig a'r cynlluniau marcio yn aneglur ac yn anghyson, neu a yw canolfannau a dysgwyr yn meddwl hyn oherwydd materion hanesyddol sydd wedi'u datrys ers hynny. Felly, byddwn yn gofyn i'r cyrff dyfarnu geisio adborth gan ganolfannau ar eglurder a chysondeb yr holl dasgau rheoledig a chynlluniau marcio. Byddwn yn gofyn i'r cyrff dyfarnu roi tystiolaeth i ni o'r camau gweithredu a gymerwyd ganddynt, gan gynnwys unrhyw ddiwygiadau neu newidiadau a wnaed ganddynt, yn dilyn adborth gan ganolfannau.

Y camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd

		I'w gwblhau erbyn
4	Byddwn yn gofyn i'r cyrff dyfarnu geisio adborth gan ganolfannau ar eglurder a chysondeb yr holl dasgau rheoledig a chynlluniau marcio ategol sydd ar gael. Byddwn yn gofyn i'r cyrff dyfarnu roi tystiolaeth i ni o'r camau gweithredu a gymerwyd ganddynt, gan gynnwys unrhyw ddiwygiadau neu newidiadau a wnaed ganddynt, yn dilyn adborth gan ganolfannau.	1 Awst 2018

6.3.3 Ailsefyll yn rhannol

Soniodd bron hanner y canolfannau y gwnaethom gyfweld â nhw am yr heriau sy'n gysylltiedig â chefnogi dysgwyr sy'n methu un o elfennau'r dasg reoledig ac sy'n gorfod ailsefyll yr holl dasg. Roedd hyn yn arbennig o amlwg yn achos y cymhwyster Sgiliau Hanfodol mewn Cyfathrebu. Roedd rhwystredigaeth dysgwyr â'r system bresennol hefyd i'w gweld yn ein harolwg dysgwyr. Daeth sylwadau i law megis:

> *"Roedd yn heriol gofyn i'w cyflogwyr roi pum awr ychwanegol iddynt er mwyn ailsefyll y dasg. Roedd hyn yn broblem yn arbennig pan oedd y dysgwyr a oedd yn methu ond yn methu un adran – o ran Cyfathrebu, roeddent yn aml yn methu'r dasg ysgrifennu." (Darparwr dysgu seiliedig ar waith)*

> *"Yn ein barn ni, os bydd dysgwyr wedi cwblhau'r rhan fwyaf o adrannau'r dasg, dylid ystyried eu bod wedi llwyddo, ac ni ddylai fod yn rhaid iddynt ailsefyll yr holl dasg. Dylent ganolbwyntio'n unig ar y thema y gwnaethant ei methu." (Darparwr dysgu seiliedig ar waith)*

> *"Rwyf wedi methu'r cymhwyster Cyfathrebu ar fy nghynnig cyntaf. Roedd angen 2 farc arnaf i lwyddo. Rwyf bellach wedi cael gwybod bod yn rhaid i mi ailsefyll yr holl gymhwyster eto, yn hytrach nag ailsefyll y rhan a fethais o drwch blewyn yn unig. Mae'n cymryd llawer o amser pan rwy'n gweithio llawn amser a phan mae gennyf blentyn ifanc. Mae hyn hefyd ar ben ceisio cwblhau fy nghymhwyster FfCC (prif gymhwyster) mewn pryd." (Dysgwr)*

> *"Yr unig beth nad oeddwn yn ei hoffi oedd gorfod ailsefyll yr holl dasg ar ôl methu rhan fach ohoni'n unig." (Dysgwr)*

Nododd rhai canolfannau, yn enwedig colegau addysg bellach, yr her weithredol a logistaidd hefyd sy'n gysylltiedig â chefnogi dysgwyr sydd wedi methu'r dasg reoledig ar yr un pryd â chefnogi dysgwyr a oedd wedi llwyddo ac a oedd yn paratoi ar gyfer y prawf cadarnhau. Daeth sylwadau i law megis:

> *"Sut maent (tiwtoriaid) yn mynd i reoli'r ffordd y byddant yn parhau i baratoi'r rhai a lwyddodd ar gyfer y prawf, pan nad oes cynorthwyydd ystafell ddosbarth i drosglwyddo'r ddau (a fethodd) iddo?" (Coleg addysg bellach)*

> *"Mae her logistaidd yn gysylltiedig â threfnu bod dysgwyr yn ailsefyll." (Coleg addysg bellach)*

Cafodd hyn ei nodi fel rhwystredigaeth i ganolfannau sy'n asesu Sgiliau Hanfodol mewn Cyfathrebu ar lefelau 2 a 3, sydd â thasg gyflwyno sy'n cael ei hasesu ar wahân. Os bydd dysgwyr yn methu'r elfen hon, mae gofyn iddynt ailsefyll yr elfen

darllen ac ysgrifennu a'r elfen siarad a gwrando, yn ogystal â'r cyflwyniad. Daeth sylwadau i law megis:

> *"Cyfathrebu yw'r her fwyaf, oherwydd na allant lwyddo'n rhannol. Os byddant yn methu un adran, bydd yn rhaid iddynt ailsefyll yr holl beth eto. Yn enwedig Cyfathrebu ar lefel 3, sy'n 8 awr o hyd ... mae'n rhaid iddynt ddychwelyd a chael eu hail-asesu ar rywbeth y maent eisoes wedi profi eu bod yn gallu ei wneud." (Darparwr dysgu seiliedig ar waith)*

> *"O ran Cyfathrebu, mae'n rhaid i ni gael dau unigolyn ar gyfer y dasg reoledig oherwydd y cyflwyniad. Mae'n hunllef logistaidd ceisio helpu dysgwyr i lwyddo yn y dasg reoledig oherwydd bydd yn rhaid iddynt ei hail-wneud os byddant yn methu." (Coleg addysg bellach)*

> *"Ceisiwch ddweud wrth rywun ei fod wedi methu'r un elfen honno (Cyfathrebu) o un marc, a bod yn rhaid iddo wneud yr wyth awr gyfan eto. Beth rydych yn ei ddisgwyl?"* (Darparwr dysgu seiliedig ar waith)

Roedd llawer o ganolfannau yn gryf o'r farn y gellid, ac y dylid, cynnig y cyfle i ailsefyll elfen cyflwyniad y cymhwyster Sgiliau Hanfodol mewn Cyfathrebu ar lefelau 2 a 3 yn rhannol. Gan fod elfen cyflwyniad y dasg reoledig ar gyfer Sgiliau Hanfodol mewn Cyfathrebu ar lefelau 2 a 3 yn cael ei hasesu ar wahan, gellir ei hasesu heb ailgynllunio'r holl dasgau rheoledig yn sylweddol. Cydnabu'r cyrff dyfarnu mai un o'r opsiynau a ystyriwyd wrth ddatblygu'r cymwysterau yn 2015 oedd caniatáu i ddysgwyr ailsefyll y cymhwyster Sgiliau Hanfodol mewn Cyfathrebu yn rhannol, ond ni chafodd yr opsiwn hwn ei roi ar waith gan Lywodraeth Cymru. Roedd y cyrff dyfarnu hefyd o blaid caniatáu i ddysgwyr ailsefyll y cymhwyster Sgiliau Hanfodol mewn Cyfathrebu ar lefelau 2 a 3 yn rhannol. Cawsom sylwadau gan gyrff dyfarnu megis:

> *"I ddechrau, roeddem i gyd o blaid hyn. Roeddem yn meddwl ein bod yn mynd rhagddi, gan fod y model cychwynnol yn caniatáu i ddysgwyr ailsefyll y cymhwyster Cyfathrebu yn rhannol. Felly, wrth fynd ymlaen, byddem yn fodlon caniatáu i ddysgwyr ailsefyll yn rhannol."*

> *"O ran y cyflwyniad sydd ei angen fel rhan o Gyfathrebu ar lefelau 2 a 3, mae'n siŵr y gellid dadlau y dylid caniatáu i hwnnw fod ar wahân gan ei fod yn weithgaredd cyflawn ynddo'i hun."*

Byddwn yn diwygio'r Egwyddorion Cynllunio Sgiliau Hanfodol er mwyn caniatáu i ddysgwyr ailsefyll y cymhwyster Sgiliau Hanfodol mewn Cyfathrebu yn rhannol ar lefel 2 a 3. Yna, byddwn yn gofyn i'r cyrff dyfarnu wahanu elfen cyflwyniad (rhan 3) y

tasgau rheoledig a datblygu proses gyson ar gyfer caniatáu i ddysgwyr ailsefyll yn rhannol. Byddwn yn gofyn i'r cyrff dyfarnu roi'r cyfle i ddysgwyr ailsefyll y cymhwyster Sgiliau Hanfodol mewn Cyfathrebu yn rhannol ar lefelau 2 a 3 o 1 Awst 2018 ymlaen.

Er bod rhai canolfannau wedi codi'r pryder hwn wrth sôn am gymwysterau eraill, roedd y mwyafrif o'r adborth yn ymwneud â'r cymhwyster Sgiliau Hanfodol mewn Cyfathrebu. Caiff tasgau rheoledig yr holl gymwysterau eraill eu hasesu'n gyfannol, a chaiff elfennau asesu eu hintegreiddio drwyddi draw. Er mwyn caniatáu i ddysgwyr ailsefyll yn rhannol drwy'r gyfres gyfan, byddai angen ail-gynllunio'r holl dasgau rheoledig presennol a/neu ddatblygu tasgau rheoledig newydd a gynlluniwyd yn benodol i ganiatáu i ddysgwyr ailsefyll. At ei gilydd, rydym yn ystyried bod y risgiau sy'n gysylltiedig â chaniatáu i ddysgwyr ailsefyll yn rhannol drwy'r gyfres gyfan yn gorbwyso unrhyw fudd i ddysgwyr a chanolfannau.

Y camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd

		I'w gwblhau erbyn
5	Byddwn yn diwygio'r Egwyddorion Cynllunio Sgiliau Hanfodol er mwyn caniatáu i ddysgwyr ailsefyll y cymhwyster Sgiliau Hanfodol mewn Cyfathrebu yn rhannol ar lefel 2 a 3. Yna, byddwn yn gofyn i'r cyrff dyfarnu wneud y canlynol: a) gwahanu elfen cyflwyniad y tasgau rheoledig a datblygu proses gyson ar gyfer caniatáu i ddysgwyr ailsefyll yn rhannol; b) rhoi'r cyfle i ddysgwyr ailsefyll y cymhwyster Sgiliau Hanfodol mewn Cyfathrebu yn rhannol ar lefel 2 a 3.	31 Ionawr 2018 31 Mawrth 2018 1 Awst 2018

6.3.4 Y rheol wyth wythnos

Nododd sawl canolfan, colegau addysg bellach a darparwyr prentisiaethau yn bennaf, fod y gofyniad i gwblhau'r dasg reoledig o fewn cyfnod o wyth wythnos yn olynol yn her. Mae colegau addysg bellach yn ei chael hi'n heriol cwblhau'r tasgau rheoledig o fewn cyfnodau hanner tymor academaidd, o ystyried bod y rhan fwyaf o gyfnodau yn y calendr academaidd yn fyrrach nag wyth wythnos. Nododd colegau addysg bellach hefyd fod y gofyniad i gwblhau'r dasg reoledig o fewn wyth wythnos yn her sylweddol os na fydd dysgwr yn gallu dod i sesiwn oherwydd salwch, sy'n broblem gyffredin ymhlith darparwyr prentisiaethau hefyd. Daeth sylwadau i law megis:

"Nid yw'r rheol wyth wythnos yn addas ar gyfer y byd academaidd mewn gwirionedd. Mae hanner tymor bob amser yn gyfnod o 6 i 7 wythnos, felly byddwch yn taro cyfnod gwyliau pa dymor bynnag a ddechreuwch. Nid hwn yw'r dull gorau. Cwblhaodd llawer o ddysgwyr eu tasg reoledig yn ystod yr hanner tymor blaenorol, felly pan wnaethant gyrraedd diwedd yr hanner tymor, roedd yn adeg y Pasg (wythnosau 7 ac 8). Felly, os oedd rhywun wedi colli un neu ddwy sesiwn, byddech mewn gwirionedd yn haneru'r amser a oedd ar gael." (Coleg addysg bellach)

"O safbwynt addysg bellach, os ydych yn edrych ar galendr addysg bellach, nid oes byth gyfnod o wyth wythnos heb doriad." (Coleg addysg bellach)

"Gall yr wyth wythnos fod yn broblem oherwydd, yn amlwg, bydd pobl yn sâl, gall staff fod yn brin, gall fod yn anodd i ddysgwyr cael amser i ffwrdd o'r gwaith i astudio." (Darparwr prentisiaethau)

Mae'n amlwg bod y rheol wyth wythnos yn heriol i rai canolfannau. Fodd bynnag, cynlluniwyd i'r dasg reoledig gael ei chwblhau dros gyfnod penodol heb orfod addysgu na rhoi adborth rhwng sesiynau, ac mae'n bwysig nodi hynny. At hynny, mae sawl canolfan wedi dweud bod cwblhau'r dasg reoledig yn well, ac yn fwy priodol i ddysgwyr, pan gaiff ei threfnu dros ddwy neu dair sesiwn o fewn cyfnod byr o amser. Ymddengys mai'r her i rai canolfannau yw bod cyfnodau o wyliau academaidd a chyfnodau pan fydd dysgwyr yn absennol am reswm dilys yn ystod y cyfnod o wyth wythnos yn effeithio ar y gallu i gwblhau tasgau rheoledig. Byddwn yn diwygio'r Egwyddorion Cynllunio Sgiliau Hanfodol er mwyn nodi'n glir nad yw'r cyfnod o wyth wythnos i gwblhau tasgau rheoledig yn cynnwys gwyliau academaidd a chyfnodau pan fydd dysgwr yn absennol am reswm dilys. Byddwn yn gofyn i'r cyrff dyfarnu ddiwygio manylebau eu cymwysterau a'u dogfennau canllaw yn briodol a chyfleu'r newidiadau hyn i ganolfannau.

Y camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd

		I'w gwblhau erbyn
6	Byddwn yn diwygio'r Egwyddorion Cynllunio Sgiliau Hanfodol er mwyn nodi'n glir nad yw'r rheol wyth wythnos i gwblhau tasgau rheoledig yn cynnwys gwyliau academaidd a chyfnodau pan fydd dysgwr yn absennol am reswm dilys. Byddwn yn gofyn i'r cyrff dyfarnu ddiwygio manylebau eu cymwysterau a'u dogfennau canllaw yn briodol a chyfleu'r newidiadau hyn i ganolfannau.	31 Ionawr 2018

6.3.5 Amseru'r profion cadarnhau

Dywedodd dros hanner y canolfannau y gwnaethom gyfweld â nhw fod dysgwyr yn cael trafferth cwblhau'r profion cadarnhau o fewn yr amser a neilltuir ac nad oedd digon o amser iddynt edrych dros eu gwaith. Daeth sylwadau i law megis:

> *"Mewn prawf rhifedd, mae gan ddysgwyr tua 2 funud i ddarllen cwestiwn. Mae hyn yn rhy fyr. Ni allant brosesu'r cwestiwn gan ei fod yn eithaf geiriog."* *(Darparwr dysgu seiliedig ar waith)*

> *"Mae'r amseru'n llym iawn – nid oes gan ddysgwyr amser i fynd yn ôl a darllen dros eu hatebion cynharach."* (Darparwr dysgu seiliedig ar waith)

> *"Mae'r amser a roddir yn y prawf cadarnhau yn gyfyngedig iawn. Os na allant ddarllen yn gyflym, nid oes ganddynt ddigon o amser i sefyll y prawf hwnnw."* *(Darparwr dysgu seiliedig ar waith)*

Roedd adborth gan ddysgwyr a gwblhaodd ein harolwg yn cefnogi hyn yn gryf. Daeth sylwadau i law megis:

> *"Roedd yr amser a ganiatawyd yn hollol annigonol ar gyfer nifer y cwestiynau yr oedd angen eu hateb. Hefyd, roedd y cwestiynau wedi'u gosod fel nad oedd modd gweld yr holl beth ar un sgrin. Roedd amser yn cael ei wastraffu am fod angen edrych i fyny ac i lawr y cwestiwn i ddod o hyd i'r wybodaeth ofynnol."*

> *"Teimlais nad oedd digon o amser ar gael. Nid wyf yn gallu cyfrifo'n gyflym, hyd yn oed os oedd yr atebion a roddwyd yn gywir. Yn hytrach na chosbi'r rhai sy'n meddwl yn araf, efallai y gallwch addasu'r prawf fel bod ganddynt siawns well o'i gwblhau."*

> *"Roedd yr amser a roddwyd i gwblhau'r prawf yn hollol annigonol. Roedd angen ateb 20 o gwestiynau o fewn 45 munud. Mae hynny ychydig yn fwy na 2 funud y cwestiwn. Gall 2 funud fod yn iawn i wneud cyfrifiad sylfaenol, ond nid yw'n ddigon o amser pan fydd angen darllen a gweithio allan symiau mawr."*

Mae'r dystiolaeth o'n hadolygiad yn awgrymu bod dysgwyr a chanolfannau o'r farn bod angen rhagor o amser i gwblhau rhai o'r profion cadarnhau. Fodd bynnag, nid yw'r adborth a gasglwyd fel rhan o'r adolygiad hwn yn rhoi tystiolaeth ddibynadwy i ni o ba brofion, os o gwbl, y mae angen estyn yr amser a ganiateir i'w cwblhau. Mae'r cyrff dyfarnu wedi monitro'r profion cadarnhau yn agos, ac mae'r dystiolaeth ganddynt i benderfynu pa mor briodol yw'r amseru presennol ac a oes angen unrhyw estyniadau amser. Byddwn yn gofyn i'r cyrff dyfarnu ddadansoddi'r data ar brofion cadarnhau er mwyn nodi a oes angen estyniad amser ar unrhyw profion ac, os felly, yr estyniad priodol sydd ei angen. Byddwn yn gofyn i'r cyrff dyfarnu roi tystiolaeth i

ni o'u gwaith dadansoddi, gan gynnwys y rheswm dros wneud unrhyw newidiadau a gynigir ganddynt.

Y camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd

		I'w gwblhau erbyn
7	Byddwn yn gofyn i'r cyrff dyfarnu ddadansoddi'r data ar brofion cadarnhau er mwyn nodi a oes angen estyniad amser ar unrhyw brofion cadarnhau a'r estyniad priodol sydd ei angen. Byddwn yn gofyn i'r cyrff dyfarnu roi tystiolaeth i ni o'u gwaith dadansoddi, gan gynnwys y rheswm dros wneud unrhyw newidiadau a gynigir ganddynt.	31 Mawrth 2018

6.4 Asesiadau cyfrwng Cymraeg

Er mai dim ond ychydig o ganolfannau a ddywedodd eu bod wedi asesu dysgwyr yn Gymraeg, roedd y rhan fwyaf o'r canolfannau hyn yn gryf o'r farn nad oes nifer gyfartal o ddeunyddiau asesu Cymraeg a deunyddiau asesu Saesneg wedi bod ar gael. O ran enghreifftiau, dywedodd canolfannau nad oedd deunyddiau Cymraeg yn cael eu rhyddhau ar yr un pryd â'r fersiynau Saesneg, bod tasgau rheoledig Cymraeg yn llai amrywiol a bod llai o brofion cadarnhau Cymraeg ar gael, a'r canlyniad yw bod dysgwyr yn ailsefyll yr un prawf ar fwy nag un achlysur. Daeth sylwadau i law megis:

> *"Dim ond ychydig iawn o opsiynau Cymraeg sydd ar gael ar gyfer llawer ohonynt (y cymwysterau)." (Coleg addysg bellach)*
>
> *"Nid yw'r adnoddau ar gael. Er enghraifft, nid oes tasgau sampl ar gael yn Gymraeg. Rydym yn ceisio hyrwyddo'r ffaith y gallwn ei ddarparu yn Gymraeg, ond wedyn nid yw'r adnoddau ar gael." (Darparwr dysgu seiliedig ar waith)*

Mae'r cymwysterau Sgiliau Hanfodol yn gymwysterau Cymeradwy, ac rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod digon o ddeunyddiau asesu ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Byddwn yn gofyn i'r cyrff dyfarnu, ar y cyd â chanolfannau, nodi'r galw am dasgau a phrofion Cymraeg, gan gynnwys y galw tebygol yn y dyfodol am dasgau a phrofion o'r fath. Yna, byddwn yn gofyn i'r cyrff dyfarnu roi tystiolaeth i ni o'r camau gweithredu a gymerwyd ganddynt, y ffordd y maent yn ateb unrhyw alw presennol, a'r ffordd y byddant yn ateb y galw tebygol yn y dyfodol.

Y camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd

		I'w gwblhau erbyn
8	Byddwn yn gofyn i'r cyrff dyfarnu, ar y cyd â chanolfannau, nodi'r galw am dasgau a phrofion Cymraeg, gan gynnwys y galw tebygol yn y dyfodol am dasgau a phrofion o'r fath. Byddwn yn gofyn i'r cyrff dyfarnu roi tystiolaeth i ni o'r camau gweithredu a gymerwyd ganddynt, y ffordd y maent yn ateb unrhyw alw presennol, a'r ffordd y byddant yn ateb y galw tebygol yn y dyfodol.	31 Mawrth 2018

6.5 Prentisiaethau

Mae'r adran hon yn nodi ein canfyddiadau o ran prentisiaethau a'r heriau ychwanegol y mae darparwyr prentisiaethau a'u dysgwyr yn eu hwynebu gyda'r cymwysterau diwygiedig. Gan mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am bolisi prentisiaeth yng Nghymru, ni allwn gymryd camau gweithredu uniongyrchol i oresgyn yr heriau hyn. Fodd bynnag, gallwn rannu'r dystiolaeth a chynnig cyngor i Lywodraeth Cymru ar sail canfyddiadau ein hadolygiad.

Gwnaethom nodi bod canolfannau dysgu seiliedig ar waith sy'n cynnig prentisiaethau yn sôn am fwy o heriau na chanolfannau eraill. Nododd darparwyr prentisiaethau sawl mater, pryder a her, gan gynnwys:

- Yr amser cyfyngedig y gallant ei neilltuo i addysgu ac asesu cymwysterau Sgiliau Hanfodol;
- Yr her sy'n gysylltiedig â chwblhau'r holl gymwysterau sydd eu hangen fel rhan o fframweithiau prentisiaeth;
- Eu barn nad oes digon o arian ar gael i ddarparu cymwysterau Sgiliau Hanfodol fel rhan o brentisiaethau;
- Y ffaith bod gofyn i rai dysgwyr gwblhau cymwysterau Sgiliau Hanfodol ar lefel sylweddol uwch na'r lefel y cawsant eu hasesu arni i ddechrau; ac
- Mae'n heriol i ddysgwyr gael amser i ffwrdd o'r gwaith i astudio.

Roedd adborth gan ddysgwyr a gwblhaodd ein harolwg yn cefnogi llawer o'r pryderon hyn. Gwelsom fod cyfran uwch o ddysgwyr prentisiaeth yn sôn am ffactorau a oedd yn eu hatal rhag cyflawni eu potensial o gymharu â dysgwyr nad oedd yn cwblhau prentisiaethau. Rydym yn ymchwilio i'r materion hyn yn fanylach yn yr adrannau isod.

6.5.1 Dull o addysgu ac asesu

Daeth rhywfaint o dystiolaeth i'r amlwg wrth gyfweld â chanolfannau bod darparwyr prentisiaethau yn neilltuo cryn dipyn yn llai o amser i addysgu ac asesu cymwysterau Sgiliau Hanfodol na chanolfannau nad ydynt yn cynnig prentisiaethau. Dywedodd rhai darparwyr prentisiaethau eu bod yn neilltuo llai na 12 awr, a hyd yn oed cyn lleied ag 8 awr, i addysgu ac asesu pob cymhwyster Sgiliau Hanfodol. O ystyried bod angen 60 o oriau dysgu dan arweiniad ar gyfer pob cymhwyster, a bod gwaith asesu yn cymryd rhwng 4½ a 9 awr (gan ddibynnu ar y lefel) fesul cymhwyster, mae hyn yn caniatáu ychydig iawn o amser, os o gwbl, i addysgu'r sgiliau i ddysgwyr a'u paratoi'n ddigonol ar gyfer yr asesiadau. Dyma enghreifftiau o'r ymatebion a ddaeth i law gan ddarparwyr prentisiaethau:

> *"Y nifer o oriau yw 8 i 10 awr ar gyfartaledd, ac mae hynny ar gyfer Cyfathrebu ar lefel 2 yn ei gyfanrwydd."*

> *"Addysgu Cyfathrebu mewn un diwrnod, addysgu Cymhwyso Rhif mewn un diwrnod, ac yna'r dasg y diwrnod nesaf."*

> *"Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cwblhau 2 neu 3 gweithdy sy'n para 5 i 6 awr."*

Mae canfyddiadau ein harolwg dysgwyr yn cefnogi hyn. Gwelsom fod llai o ddysgwyr ar raglenni prentisiaethau o'r farn eu bod yn cael digon o amser i ddysgu'r sgiliau sydd eu hangen o gymharu â dysgwyr ar raglenni dysgu eraill. Cawsom sylwadau gan ddysgwyr prentisiaeth megis:

> *"Dim ond 3 awr o addysg gyfyngedig ac anhrefnus iawn a gefais."*

> *"Dim ond am 2 awr bob mis y gall fy asesydd fy ngweld, ac roedd hyn fel arfer yn mynd tuag at fy mhrif gymhwyster."*

> *"Roedd cwblhau'r dasg heb unrhyw ddosbarthiadau i fy helpu yn frawychus iawn."*

Mae'r amser cyfyngedig a neilltuir gan ddarparwyr prentisiaethau i addysgu ac asesu'r cymwysterau diwygiedig yn peri pryder, a gall fod yn gyfrifol am rai o'r heriau y maen nhw a'u dysgwyr yn eu hwynebu gyda'r cymwysterau diwygiedig.

6.5.2 Cyflawni fframweithiau prentisiaeth

Dywedodd bron pob canolfan sy'n cynnig Sgiliau Hanfodol fel rhan o brentisiaethau nad oes digon o amser ar gael i gwblhau'r holl gymwysterau sydd eu hangen fel rhan o fframweithiau prentisiaeth. Cawsom sylwadau gan ddarparwyr prentisiaethau megis:

> *"Mae'r cwrs gweinyddu busnes yn para naw mis, felly mae ganddynt naw mis i gwblhau tri chymhwyster Sgiliau Hanfodol, eu prif gymhwyster galwedigaethol a gweithio'n llawn amser."*

> *"Efallai y bydd colegau yn gwneud 3 awr yr wythnos (ar gyfer Sgiliau Hanfodol) ar amserlen o dros 20 wythnos, sydd tua 60 awr o ddysgu. Mae hynny'n cyfateb i bron 5 mlynedd ar gyfer cwblhau prentisiaeth, a dim ond rhaglenni 12 i 16 mis sydd gennym. Yr her yw sut y gallwn ddarparu hyfforddiant gwerth 5 mlynedd y byddai coleg yn ei ddarparu mewn 12 mis? Mae hynny'n broblem anferth sy'n ein hwynebu."*

> *"Maent ar raglen am 18 mis, felly mae ganddynt 18 mis i gwblhau eu cymhwyster galwedigaethol, y tri chymhwyster Sgiliau Hanfodol a Chyflogadwyedd. Os ydych yn ystyried y ffaith bod angen 6 sesiwn i gwblhau un (cymhwyster Sgiliau Hanfodol) yn unig, erbyn yr adeg y byddwch wedi mynd trwy'r papur sampl, cynyddu a chaboli eu sgiliau ychydig, gwneud ychydig o hyn, cwblhau'r tasgau rheoledig, rhoi adborth ar y tasgau rheoledig ac yna sefyll y prawf cadarnhau, mae hynny'n 6 (sesiwn), a phan mae gennych 3 o'r rheini, mae eich 18 mis wedi mynd ac nid yw hynny'n caniatáu ar gyfer unrhyw beth arall."*

Roedd adborth gan ddysgwyr prentisiaeth a gwblhaodd ein harolwg yn cefnogi hyn. Daeth sylwadau i law megis:

> *"Mae angen mwy o gymorth arnaf, ac mae fy nhiwtor yn dweud nad oes unrhyw arian nac unrhyw amser i wneud hyn ym maes dysgu seiliedig ar waith. Mae angen i mi wneud llawer yn annibynnol, ac mae fy FfCC, swydd a bywyd teuluol/personol yn golygu ei bod yn anodd gwneud hyn."*

> *"Gall fy asesydd dreulio 2.5 awr o amser asesu gyda mi bob mis. Mae hyn yn cyfateb i 37.5 awr o ddysgu a ariennir ar gyfer fy niploma a thri sgil hanfodol. Nid yw'n ddigon."*

"Rwy'n teimlo nad oedd digon o amser. Methais y tro cyntaf ac mae angen i mi ailsefyll. Dim ond ychydig o fisoedd o arian sydd gennyf ar ôl, ac rwy'n poeni na fyddaf yn gorffen mewn pryd."

Roedd darparwyr prentisiaethau yn gryf o'r farn eu bod yn cael trafferth darparu'r holl gymwysterau sydd eu hangen fel rhan o fframweithiau prentisiaeth yn yr amser y gallant ei neilltuo i ddysgwyr prentisiaeth. Dywedodd rhai canolfannau fod cyflwyno'r procsis ym mis Hydref 2016 wedi bod yn ddefnyddiol ac wedi lleihau nifer y cymwysterau y mae angen i rai dysgwyr eu cwblhau. Fodd bynnag, i ddysgwyr nad oes ganddynt gymhwyster a enillwyd yn flaenorol y gellir ei dderbyn yn lle cymwysterau Sgiliau Hanfodol, mae'r gofyniad i gwblhau'r holl gymwysterau fel rhan o fframweithiau prentisiaeth, a gwneud hynny yn yr amser cyfyngedig y gall darparwyr prentisiaethau ei neilltuo, yn dal i fod yn her sylweddol ac yn rhoi pwysau ychwanegol ar ddysgwyr.

Gwnaethom rannu'r canfyddiad hwn gyda Llywodraeth Cymru, a bu iddynt ymateb drwy nodi:

"Nid yw Llywodraeth Cymru yn rhoi terfyn ar yr amser a gymerir i gyflawni prentisiaeth. Dylid teilwra Cynlluniau Prentisiaeth Unigol ar gyfer yr unigolyn. Mae angen cynllunio gofalus er mwyn deall anghenion y prentis, mae angen cynllunio gweithgareddau dysgu perthnasol er mwyn diwallu anghenion, a dylid cynnwys asesiadau rheolaidd o gynnydd fel rhan o'r drefn."

6.5.3 Ariannu prentisiaethau

Mae darparwyr prentisiaethau o'r farn nad oes digon o arian ar gael i ddarparu'r cymwysterau Sgiliau Hanfodol fel rhan o brentisiaethau. Mae rhai darparwyr prentisiaethau wedi dweud mai'r rheswm dros yr amser cyfyngedig a neilltuir ganddynt i addysgu ac asesu'r cymwysterau diwygiedig yw'r arian cyfyngedig sydd ar gael. Cawsom sylwadau gan ddarparwyr prentisiaethau megis:

"Rwy'n meddwl y dylai rhywbeth ddod o Lywodraeth Cymru am lefelau ariannu. O ble mae'r arian hwn yn dod?"

"Ar gyfer y brentisiaeth, hyd yn oed heb y data, gallaf ddweud wrthych ein bod yn gwneud llawer mwy o oriau, o ran llythrennedd a rhifedd, na'r hyn rydym yn cael ein talu amdano, ac rwy'n gwybod bod pawb yn gwneud hyn."

(Ar ôl gofyn pam mae'r ganolfan yn neilltuo ychydig iawn o oriau i addysgu ac asesu'r cymwysterau Sgiliau Hanfodol, yr ymateb a gafwyd oedd) *"Llywodraeth Cymru. Wel, arian. Er enghraifft, mae gennych 14 mis ar gyfartaledd i ddarparu'r cymhwyster gweinyddu busnes lefel 3 ond, yn ystod yr 14 mis hwnnw, mae'n rhaid i chi ddarparu'r tri chymhwyster Sgiliau Hanfodol ochr yn ochr â'r cymhwyster FfCC, a dyna'r her rydym yn ei hwynebu gyda 2 i 2.5 awr y sesiwn."*

Gwnaethom rannu'r canfyddiad hwn gyda Llywodraeth Cymru, ac, mewn ymateb i'r sylwadau gan ddarparwyr prentisiaethau, gwnaethant ddweud wrthom fod adolygiad sydd wedi'i amserlennu o'r methodoleg ar gyfer ariannu prentisiaethau ar y gweill ar hyn o bryd, a dylid cael ei orffen erbyn Gwanwyn 2018.

6.5.4 Lefelau'r Sgiliau Hanfodol sydd eu hangen ar gyfer prentisiaethau

Mater allweddol arall a nodwyd gan ddarparwyr prentisiaethau yw bod rhai dysgwyr yn cael eu hasesu i ddechrau ar lefel sylweddol is na lefelau'r cymwysterau Sgiliau Hanfodol sydd eu hangen ar gyfer y fframweithiau prentisiaeth. O ran enghraifft, dywedodd canolfannau fod dysgwyr yn cael eu hasesu ar lefel mynediad i ddechrau, ond bod yn rhaid iddynt gwblhau'r cymwysterau Sgiliau Hanfodol ar lefel 2 neu 3. Cawsom sylwadau gan ddarparwyr prentisiaethau megis:

"Rydym wedi gorfod cefnogi rhai dysgwyr sy'n cael ei hasesu i ddechrau ar lefel mynediad hyd at lefel 2 neu 3 mewn Cyfathrebu mewn ychydig dros bum sesiwn."

"Mae dysgwr lefel 5, rheolwr cofrestredig, newydd gofrestru â ni sy'n dechrau ar ar lefel mynediad 3, sef 3 lefel yn is na'r lefel y dylai fod arni."

"Mae angen i rai dysgwyr fod ar lefel 3, ond yn ôl WEST maent ar lefel mynediad 3. Mae'r mwyafrif o'm dysgwyr o leiaf un, yn aml ddwy, lefel islaw'r lefel y dylent fod arni."

Mae hyn, ynghyd â'r ffaith bod llawer o ddarparwyr prentisiaethau yn neilltuo ychydig iawn o amser i addysgu ac asesu'r cymwysterau, yn creu sefyllfa heriol iawn i ddysgwyr, a gafodd ei adlewyrchu yn yr adborth a gawsom gan ddysgwyr. Daeth sylwadau i law megis:

"Rwy'n teimlo ei bod yn afrealistig iawn disgwyl i mi ddatblygu fy sgiliau lefel mynediad mewn mathemateg i'r hyn sy'n cyfateb i lefel TGAU mewn 15 mis."

"Mae symud o lefel mynediad i lefel 2 yn anodd. Mae'r gofynion ar y lefel hon yn anodd ac yn heriol i bobl sy'n cael trafferth â mathemateg."

"Mae ceisio cwblhau tasgau a phrofion sydd y tu hwnt i'm gallu wedi bod yn straen ac yn anodd ... Mae gofyn i mi ddysgu i lefel 3, lefel sydd y tu hwnt i'm gallu."

Dywedodd sawl canolfan fod gofynion prentisiaethau o ran cymwysterau Sgiliau Hanfodol wedi dylanwadu ar y ffordd y maent yn recriwtio. Dywedodd rhai canolfannau eu bod bellach yn recriwtio dysgwyr sy'n gallu ennill y cymwysterau Sgiliau Hanfodol sydd eu hangen fel rhan o'r fframweithiau prentisiaeth, yn hytrach na'r rhai y mae'r llwybr galwedigaethol yn fwy addas iddynt. Cawsom sylwadau gan ddarparwyr prentisiaethau megis:

"Mae llawer o ddysgwyr ar lefel sy'n is o lawer (na'r lefel sydd ei hangen) ac rydym wedi penderfynu na allwn gofrestru dysgwyr os ydynt ar lefel sydd fwy na lefel yn is, gan nad oes unrhyw ffordd yn y byd y byddant yn cwblhau'r fframwaith prentisiaeth."

"Mae angen i ni nawr sicrhau bod ein proses gofrestru yn llawer mwy llym ... felly rydym yn caniatáu dysgwyr sydd â'r sgiliau sylfaenol i ddechrau arni, gan nad oes gennym yr amser mewn gwirionedd i'w dreulio yn darparu cymwysterau ar lefel 2 pan fyddant yn dechrau ar lefel mynediad 2."

Dywedodd sawl canolfan hefyd fod hyn yn fwy heriol yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol lle mae'r cymhwyster Sgiliau Hanfodol mewn Llythrennedd Digidol hefyd yn rhan o'r fframweithiau prentisiaeth. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi cyhoeddi ers hynny ei fod wedi cael gwared ar y gofyniad am lythrennedd digidol o'r fframweithiau prentisiaeth, a dylai hyn gael gwared ar yr her ychwanegol hon.

6.5.5 Amser i ffwrdd o'r gwaith i astudio

Dywedodd bron pob darparwr prentisiaethau nad yw rhai dysgwyr yn gallu cael amser i ffwrdd o'r gwaith i astudio, a bod hyn yn rhwystr sylweddol. Mae hyn wedi dod yn fwy amlwg gyda'r cymwysterau diwygiedig. Cawsom sylwadau gan ddarparwyr prentisiaethau megis:

"Yr her fwyaf wrth ddarparu'r cymwysterau yw amser astudio."

"Mae dysgwyr yn ei chael hi'n anodd cael amser i ffwrdd o'r gwaith i ddod i mewn ar gyfer y diwrnodau hyn. Hefyd, os ydych yn ystyried rhai o'r sectorau rydym yn darparu cymwysterau ynddynt, megis gofal plant ac iechyd a gofal cymdeithasol mae cymhareb staff ar waith yn amlwg, felly ni allwn ddisgwyl iddynt ofyn am

amser i ffwrdd o'r gwaith i astudio. Mae cymhareb ar waith ym maes gofal plant yn arbennig, felly mae'n anodd iddynt cael amser i ffwrdd o'r gwaith i astudio."

"Mae'n rhaid iddynt ddod i mewn ar eu diwrnodau rhydd. Nid ydynt yn gallu cael amser i ffwrdd o'r gwaith i astudio. Efallai y cewch un neu ddau gyflogwr sy'n caniatáu hyn, ond mae'r rhan fwyaf yn dweud ei bod yn rhy bwysig eu bod yn y gwaith."

Roedd adborth gan ddysgwyr a gwblhaodd ein harolwg yn cefnogi hyn. Daeth sylwadau i law megis:

"Ni allaf gwblhau'r cwrs, gan y byddaf wedi treulio 3 x 8 awr mewn gweithdai paratoi a 3 ar asesiadau. Mae hyn yn ormod i'w ofyn gan fy nghyflogwr."

"Rwy'n gweithio. Bob tro rwy'n mynd i ddosbarth, rwy'n cael amser i ffwrdd o'r gwaith, ac roedd fy nghyflogwr yn anhapus iawn. Roedd hyn yn anodd iawn oherwydd roedd yn rhaid i mi wneud ymchwil gartref, a dim ond ychydig o sesiynau a fynychais oherwydd roeddwn yn poeni y byddwn yn colli fy swydd."

"Mae mor anodd cael amser i ffwrdd o'r gwaith fel y mae, ac rydym yn colli cyflog i ddod i mewn a'u sefyll (y profion) gan ein bod ar gontract dim oriau. Fel arall, mae'n rhaid i ni eu sefyll ar ein diwrnodau rhydd. Sut mae hynny'n deg?"

Mae rhai canolfannau wedi goresgyn yr her hon drwy gyfleu eu disgwyliadau'n glir i gyflogwyr o'r dechrau. Mae eraill wedi rhoi model diwrnod astudio ar waith lle mae dysgwyr yn mynd i'r ganolfan bob wythnos, neu wedi addasu eu model darparu i gynnwys gweithdai addysgu. Dywedodd canolfannau fod hyn yn cynnig cysondeb i gyflogwyr ac yn eu galluogi i gynllunio patrymau gwaith pan fyddant yn gwybod y bydd dysgwyr i ffwrdd o'r gwaith. Fodd bynnag, mae cael amser i ffwrdd o'r gwaith i astudio yn dal i fod yn her sylweddol sy'n wynebu canolfannau, yn enwedig canolfannau sy'n parhau i ddarparu ac asesu mewn lleoliadau un i un ysbeidiol.

Mae'r heriau a amlinellir yn yr adran hon o'r adroddiad yn berthnasol i ddarparwyr prentisiaethau a dysgwyr sy'n ymgymryd â phrentisiaethau yn unig. Mae cymwysterau Sgiliau Hanfodol yn elfen allweddol o brentisiaethau ac mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod darparwyr prentisiaethau a'u dysgwyr yn wynebu llawer o heriau gyda'r cymwysterau diwygiedig. Nid yw llawer o'r heriau hyn yn gysylltiedig yn benodol â'r cymwysterau, ond maent yn ymwneud â phrofiad darparwyr prentisiaethau o ofynion prentisiaethau a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru a'u hymateb iddynt. Rydym wedi rhannu'r adroddiad hwn â Llywodraeth Cymru, gan mai'r Llywodraeth sy'n gyfrifol am bolisi ynglŷn â phrentisiaethau yng Nghymru. Mewn ymateb, nododd Llywodraeth Cymru:

"Mae Polisi Prentisiaethau Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2017, yn amlinellu ein bwriad i godi lefelau sgiliau ar gyfartaledd. Mae hefyd yn nodi'r angen i'n darpariaeth Prentisiaethau fod yn fwy hyblyg, yn ddigon hyblyg i bawb ei gyrchu, ni waeth amgylchiadau personol unigolion, tra'n rhoi lle i'r cyfyngiadau o ran amser a busnes sy'n nodweddiadol o lawer o Fusnesau Bach a Chanolig. Rydym yn benderfynol o ganolbwyntio ar gynyddu nifer y cyfleoedd i gael prentisiaethau a chefnogi cynllun 'safon aur' sy'n arwain at swyddi o safon. Mae ein polisi wedi'i gyfathrebu'n eang i randdeiliaid a darparwyr prentisiaethau ledled Cymru, ac rydym yn disgwyl i safonau wella dros amser.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu i hybu ansawdd a phoblogrwydd prentisiaethau, ac mae'n parhau i weithio gydag Estyn i nodi a mynd i'r afael â chynlluniau prentisiaeth sy'n islaw'r safon, a chodi safonau ansawdd. Felly, mae'n arbennig o siomedig bod yr adolygiad hwn wedi nodi diffyg dealltwriaeth ar ran rhai darparwyr mewn perthynas â'r manylion a gynhwysir ym Manyleb y Rhaglen Prentisiaethau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru."

7. Cynllun tymor hir ar gyfer y cymwysterau

Mae'r adolygiad hwn wedi nodi bod y broses o gyflwyno'r cymwysterau Sgiliau Hanfodol diwygiedig wedi bod yn heriol i ddysgwyr, canolfannau a chyrff dyfarnu. Roedd gwendidau i'r broses o gyflwyno'r cymwysterau yn 2015 ac mae dysgwyr, canolfannau a chyrff dyfarnu wedi wynebu heriau o ganlyniad i hyn. Mae'r camau gweithredu a amlinellir yn yr adroddiad hwn yn ceisio ymateb i'r pryderon uniongyrchol a nodwyd fel rhan o'r adolygiad hwn.

Fodd bynnag, mae ein tystiolaeth yn awgrymu y bydd pryderon yn parhau i godi ynghylch hydrinedd tymor hir y cymwysterau Sgiliau Hanfodol yng nghyd-destun y rhaglenni dysgu sy'n eu darparu fel arfer. Mae'r pryderon hyn yn ymwneud â pha mor effeithiol, priodol a hydrin y mae'r offerynnau asesu i ddysgwyr a chanolfannau.

Gellir cofrestru ar gyfer y gyfres bresennol o gymwysterau hyd at 31 Awst 2020. Er mwyn sicrhau bod cyfres effeithiol a hydrin o gymwysterau ar waith i'w haddysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2020 ymlaen, mae angen i ni ystyried ar ba ffurf y dylai'r cymwysterau fod yn y tymor hir. Drwy ddefnyddio'r dystiolaeth o'r adolygiad hwn, tystiolaeth o fonitro'r cymwysterau ac ystyried arfer gorau a geir mewn mannau eraill, byddwn yn adolygu model asesu'r cymwysterau hyn mewn pryd i'w haddysgu o fis Medi 2020 ymlaen. Bydd y gwaith diwygio hwn yn mynd i'r afael â'r pryderon sy'n bodoli o hyd ac yn sicrhau bod y cymwysterau a'u hasesiadau yn dal i fod yn ddilys ac yn ddibynadwy. Ar yr un pryd, bydd hefyd yn mynd i'r afael â'u hydrinedd er mwyn diwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru yn llawn.

Y camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd

		I'w gwblhau erbyn
9	Byddwn yn adolygu model asesu'r cymwysterau Sgiliau Hanfodol (sydd â dyddiad gorffen gweithredu o 2020) a threfnu bod fersiynau diwygiedig ar gael i'w haddysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2020 ymlaen. Bydd y gwaith diwygio hwn yn ceisio mynd i'r afael â'r pryderon sy'n bodoli o hyd ac yn sicrhau bod y cymwysterau a'u hasesiadau yn dal i fod yn ddilys ac yn ddibynadwy. Ar yr un pryd, bydd hefyd yn mynd i'r afael â'u hydrinedd er mwyn diwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru yn llawn.	Yr adeg pan fyddant yn cael eu haddysgu am y tro cyntaf ym mis Medi 2020 – dylid rhoi'r manylebau diwygiedig i ganolfannau yn brydlon er mwyn rhoi digon o amser iddynt wneud newidiadau.

8. Casgliad

Fel yr amlinellir yn yr adroddiad hwn, mae'r rhan fwyaf o ganolfannau yn croesawu trylwyredd ychwanegol y cymwysterau diwygiedig. Fodd bynnag, mae'r broses o gyflwyno'r cymwysterau wedi bod yn heriol i ddysgwyr, canolfannau a chyrff dyfarnu. Yn ogystal, mae canolfannau a dysgwyr yn parhau i ddod ar draws heriau gyda'r cymwysterau diwygiedig. Mae hyn am eu bod o'r farn nad oes gan rai tasgau rheoledig ddigon o gyd-destun a'u bod yn amherthnasol; nad yw rhai tasgau rheoledig yn ddigon clir a chyson; ei bod yn heriol helpu dysgwyr i ailsefyll tasgau rheoledig a'u cwblhau o fewn y cyfnod o wyth wythnos; nad yw'r amser a ganiateir i gwblhau rhai profion cadarnhau yn ddigonol; bod nifer gyfyngedig o asesiadau Cymraeg ar gael; a bod darparwyr prentisiaethau a'u dysgwyr yn wynebu llawer o heriau eraill sydd y tu hwnt i'n pwerau rheoleiddio.

Mae ein camau arfaethedig yn ceisio mynd i'r afael â'r materion a nodwyd gennym fel rhan o'n hadolygiad. Byddwn yn cyfeirio at y canfyddiadau wrth adolygu'r cymwysterau erbyn eu dyddiad gorffen gweithredol presennol yn 2020. Yn y cyfamser, byddwn yn gweithio gyda'r cyrff dyfarnu, a rhanddeiliad allweddol eraill, er mwyn cefnogi'r broses o gyflwyno'r cymwysterau Sgiliau Hanfodol diwygiedig yn barhaus ac yn llwyddiannus er budd dysgwyr yng Nghymru.

Atodiad A – Cwestiynau a ofynnwyd wrth gyfweld â chyrff dyfarnu

Cynllunio a datblygu'r cymwysterau diwygiedig

Hoffem fynd yn ôl i'r adeg cyn mis Medi 2015 ac ystyried yn fras y ffordd y cafodd y cymwysterau diwygiedig eu cynllunio a'u datblygu. Mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud â'r broses gychwynnol o gynllunio a datblygu'r cymwysterau.

1. Amlinellwch y rheswm, neu rheswm busnes, pam gwnaethoch chi benderfynu cynnig y cymwysterau Sgiliau Hanfodol diwygiedig yng Nghymru.

2. Amlinellwch eich profiad o fod yn rhan o'r broses cynllunio a datblygu'r cymwysterau diwygiedig, gan gynnwys unrhyw heriau y gwnaethoch eu hwynebu, y ffordd y gwnaethoch oresgyn y rhain, ac unrhyw wersi y gellir eu dysgu o'r broses.

Cynllunio a datblygu asesiadau

3. Amlinellwch eich barn ar y dull o gydweithio i gynllunio tasgau a phrofion, gan gynnwys ei gryfderau, ei wendidau a'i heriau.

Dull cyrff dyfarnu o gydweithio

4. Beth oedd cryfderau a gwendidau dull cyrff dyfarnu o gydweithio?

5. Amlinellwch yr heriau rydych wedi'u hwynebu wrth gydweithio, a sut rydych wedi goresgyn yr heriau hyn.

6. Yn eich barn chi, sut y bydd y dull o gydweithio yn cael ei ddatblygu yn y dyfodol, a pha fath o rôl fydd gan y Grŵp Rheoli Asedau yn y dyfodol?

Y gyfres o gymwysterau

7. Amlinellwch unrhyw broblemau/gwendidau a nodwyd gennych o ran y cymwysterau a all rwystro dysgwyr yn afresymol. Gallai'r rhain ymwneud â chynnwys, strwythur neu ddulliau asesu'r cymhwyster.

8. Diolch am roi adborth yn ddiweddar ar gael cymhwyster Cyfathrebu penodol yn Gymraeg. A fyddai eich corff dyfarnu am gael ei gynnwys yn y broses o ddatblygu cymhwyster Cyfathrebu penodol yn Gymraeg?

9. A ydych wedi dadansoddi cost a budd neu werth am arian y cymwysterau diwygiedig? Os felly, beth oedd canlyniadau'r gwaith dadansoddi hwn?

Cefnogi canolfannau

10. Amlinellwch eich dull o gefnogi canolfannau sy'n cynnig cymwysterau Sgiliau Hanfodol. Gallai hyn gynnwys digwyddiadau Datblygiad Proffesiynol Parhaus, digwyddiadau cymedroli/safoni, eich dull o sicrhau ansawdd yn allanol ac ati.

11. A yw'r gefnogaeth rydych yn ei rhoi i ganolfannau wedi bod yn wahanol ar gyfer y cymwysterau diwygiedig o gymharu â'r hen gymwysterau?

Adborth gan randdeiliaid

12. A ydych wedi cael unrhyw adborth perthnasol gan randdeiliaid ar y cymwysterau diwygiedig a all lywio'r adolygiad hwn? Gallai hyn fod yn adborth cadarnhaol neu negyddol gan y canlynol:
    a. Canolfannau
    b. Dilyswyr allanol/Swyddogion sicrhau ansawdd allanol
    c. Grwpiau aelodaeth
    d. Cyflogwyr

Dichonoldeb gwneud newidiadau

Rydym wedi cael adborth anecdotaidd gan ganolfannau a grwpiau aelodaeth fod rhai o elfennau'r cymwysterau yn her a/neu'n rhwystr afresymol i ddysgwyr sy'n cwblhau'r cymwysterau diwygiedig. Byddem yn gwerthfawrogi eich barn ar yr adborth hwn ac ar ddichonoldeb gwneud newidiadau a nodwyd gan yr adolygiad hwn.

13. Pa mor ddichonadwy yw gwneud newidiadau i gael gwared ar y rheol wyth wythnos i gwblhau tasgau rheoledig? Beth yw'r heriau sy'n gysylltiedig â gwneud hyn?

14. Pa mor ddichonadwy yw caniatáu i ddysgwyr ailsefyll tasgau rheoledig yn rhannol? Beth yw'r heriau sy'n gysylltiedig â gwneud hyn?

15. Mae rhai grwpiau aelodaeth wedi awgrymu y gallai weithio gyda chyrff dyfarnu i gynllunio amrywiaeth o dasgau rheoledig sy'n benodol i'r sector. Beth yw cryfderau, gwendidau a dichonoldeb hyn yn eich barn chi? A fyddai eich corff dyfarnu'n barod i wneud hyn?

Eich cydberthynas â Cymwysterau Cymru

Rydym yn falch o'r ffaith ein bod yn rheoleiddiwr cydweithredol sy'n gweithio gyda'r rhai rydym yn eu rheoleiddio, lle y bo'n briodol, i oresgyn heriau sy'n codi gyda chymwysterau a'r system gymwysterau. Rydym yn gwerthfawrogi eich adborth, sy'n helpu i wella ein dull o reoleiddio.

16. Yn eich barn chi, beth oedd cryfderau a gwendidau rôl Cymwysterau Cymru yn ystod y 18 mis diwethaf o ran cymwysterau Sgiliau Hanfodol?

17. Beth gallai Cymwysterau Cymru ei wneud dros y 12 mis nesaf i gefnogi effeithiolrwydd y cymwysterau diwygiedig?

Cyfeiriad y gyfres o gymwysterau yn y dyfodol

18. Beth yw cyfeiriad cymwysterau Sgiliau Hanfodol yn y dyfodol yn eich corff dyfarnu?

19. Pa waith y gellid ei wneud yn y dyfodol i wella'r gyfres o gymwysterau, a phwy allai wneud y gwaith hwnnw? Gallai hyn gwmpasu gwaith i'w wneud gan y canlynol:

    e. Cyrff dyfarnu
    f. Y Grŵp Rheoli Asedau
    g. Rhanddeiliaid eraill e.e. Colegau Cymru, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru

Yr adolygiad

20. A hoffech i'r adolygiad ganolbwyntio ar unrhyw beth wrth i ni ymgysylltu â chanolfannau a dysgwyr?

21. A oes gennych unrhyw bryderon neu gwestiynau am yr adolygiad?

Unrhyw wybodaeth arall a/neu gwestiynau sydd gennych

22. A hoffech rannu unrhyw wybodaeth neu adborth pellach â ni?

23. Oes gennych unrhyw gwestiynau?

Atodiad B – Cwestiynau a ofynnwyd wrth gyfweld â chanolfannau

Gwybodaeth gefndir

1. Amlinellwch eich rôl yn eich canolfan.

2. Pa gymwysterau Sgiliau Hanfodol sy'n cael eu cynnig yn eich canolfan? Tua faint o ddysgwyr sy'n gweithio tuag at bob cymhwyster Sgiliau Hanfodol yn eich canolfan?
   Ceisiwch gyflwyno gwybodaeth mor gywir â phosibl.

3. Pa gorff dyfarnu rydych yn ei ddefnyddio ar gyfer cymwysterau Sgiliau Hanfodol?

4. Yn eich canolfan, a ddefnyddir cymwysterau Sgiliau Hanfodol fel rhan o raglen ddysgu e.e. prentisiaethau?

Eich dull o ddarparu ac asesu

5. Amlinellwch eich dull o ddarparu ac asesu'r cymwysterau diwygiedig, gan gynnwys nifer y sesiynau ac oriau a neilltuir i wneud hyn.

6. Amlinellwch unrhyw newidiadau rydych wedi'u gwneud i'ch dull o ddarparu ac asesu'r cymwysterau diwygiedig o gymharu â'r hen gymwysterau. A yw'r newidiadau hyn wedi bod yn effeithiol?

Profiad a chymhwysedd staff

7. A yw eich canolfan yn defnyddio ymarferwyr Sgiliau Hanfodol arbenigol i ddarparu ac asesu cymwysterau Sgiliau Hanfodol?
   At ddiben y cwestiwn hwn, mae ymarferydd Sgiliau Hanfodol yn unigolyn sydd â chymhwyster ymarferydd Sgiliau Hanfodol ar lefel 3 neu 5 ac sydd â digon o brofiad o ddarparu ac asesu cymwysterau Sgiliau Hanfodol.

7a. Os ydy, a yw hyn wedi bod yn effeithiol?

7b. Os nac ydy, pam?

Asesu

8. Amlinellwch gryfderau a gwendidau'r dasg reoledig, gan gynnwys unrhyw heriau rydych wedi'u hwynebu ac a wnaethoch/sut y gwnaethoch oresgyn yr heriau hyn.

9. Amlinellwch gryfderau a gwendidau'r prawf cadarnhau, gan gynnwys unrhyw heriau rydych wedi'u hwynebu ac a wnaethoch/sut y gwnaethoch oresgyn yr heriau hyn.

10. Amlinellwch gryfderau a gwendidau'r drafodaeth strwythuredig, gan gynnwys unrhyw heriau rydych wedi'u hwynebu ac os/sut aethoch i'r afael â'r heriau hyn.

Y gyfres o gymwysterau

11. Ac eithrio asesiadau, amlinellwch gryfderau a gwendidau eraill y cymwysterau, gan gynnwys unrhyw heriau rydych wedi'u hwynebu ac a wnaethoch/sut y gwnaethoch oresgyn yr heriau hyn.

Asesiadau Cymraeg/dwyieithog

12. A oes unrhyw ddysgwyr yn eich canolfan wedi cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog?

13. Os oes, a ydych wedi wynebu unrhyw heriau wrth asesu dysgwyr yn Gymraeg a/neu'n ddwyieithog a sut y gwnaethoch oresgyn yr heriau hyn?

14. Os nac oes, pam?

Cefnogi canolfannau a Datblygiad Proffesiynol Parhaus

15. Amlinellwch y gefnogaeth a'r hyfforddiant rydych wedi'u cael er mwyn gallu darparu, asesu a sicrhau ansawdd mewnol y cymwysterau diwygiedig. A yw hyn wedi bod yn effeithiol?
Gallai hyn gynnwys cefnogaeth a hyfforddiant a gynigiwyd gan eich sefydliad, cefnogaeth a hyfforddiant a gynigiwyd gan eich corff dyfarnu a/neu hyfforddiant a gynigiwyd gan grwpiau aelodaeth e.e. Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, Colegau Cymru.

Adborth gan ddysgwyr

16. Nodwch unrhyw adborth rydych wedi'i gael gan ddysgwyr am y cymwysterau diwygiedig.

Unrhyw wybodaeth arall a/neu gwestiynnau

17. A hoffech rannu unrhyw wybodaeth neu adborth pellach â ni? A oes gennych unrhyw gwestiynau?

Atodiad C – Cwestiynau'r arolwg dysgwyr

1) Ticiwch pa UN cymhwyster *Sgiliau Hanfodol* yr hoffech wneud sylwadau arno.

☐ Cymhwyso Rhif

☐ Cyfathrebu

☐ Llythrennedd Digidol

☐ Cyflogadwyedd

2) Ticiwch lefel y cymhwyster *Sgiliau Hanfodol* rydych yn ei astudio.

☐ Lefel mynediad 1

☐ Lefel mynediad 2

☐ Lefel mynediad 3

☐ Lefel 1

☐ Lefel 2

☐ Lefel 3

3) Ymhle rydych yn astudio eich cymhwyster?

☐ Coleg Addysg Bellach

☐ Dysgu Seiledig ar Waith: Prentisiaeth

☐ Dysgu Seiledig ar Waith: Hyfforddiaeth

☐ Ysgol

☐ Dysgu Oedolion yn y Gymuned

☐ Arall (nodwch)

4) Beth fu'r peth mwyaf defnyddiol ynglŷn ag astudio ar gyfer eich cymhwyster *Sgiliau Hanfodo*l? Eglurwch pam.

Efallai yr hoffech ystyried pa mor ddefnyddiol y gallai'r cymhwyster fod ar gyfer cyflogaeth, addysg bellach, bywyd bob dydd ac ati.

5) Beth fu'r peth lleiaf defnyddiol ynglŷn ag astudio ar gyfer eich cymhwyster *Sgiliau Hanfodol*? Eglurwch pam.

Efallai yr hoffech ystyried pa mor ddefnyddiol y gallai'r cymhwyster fod ar gyfer cyflogaeth, addysg bellach, bywyd bob dydd ac ati.

6) A ydych yn teimlo bod digon o amser i ddysgu'r sgiliau sydd eu hangen arnoch i gwblhau'r asesiadau?

☐ Ydw

☐ Nac ydw

☐ Ddim yn gwybod

Eglurwch eich ateb.

7) A ydych wedi cwblhau'r Dasg Reoledig?

Mae'r Dasg Reoledig yn brosiect a fydd yn cymryd rhwng 4 ac 8 awr i'w gwblhau.

☐ Ydw

☐ Nac ydw *(ewch i gwestiwn 9)*

8) Os mai 'Ydw' oedd eich ateb i gwestiwn 7, rhowch eich barn am y Dasg Reoledig.

Efallai yr hoffech ystyried yr amseru, ble y gwnaethoch gwblhau'r Dasg, y cyfarwyddyd a roddwyd i chi ac ati.

9) A ydych wedi cwblhau'r Prawf Cadarnhau?

Mae'r Prawf Cadarnhau yn brawf amlddewis ar ffurf arholiad a gwblheir fel arfer ar ôl gorffen y Dasg Reoledig.

*(**Noder:** dim ond ar gyfer yr cymwysterau Cymhwyso Rhif a Chyfathrebu y cwblheir y Prawf Cadarnhau)*

☐ Ydw

☐ Nac ydw *(ewch i gwestiwn 11)*

☐ Dd/G *(dewiswch os ydych yn astudio ar gyfer y cymwysterau Llythrennedd Digidol neu Gyflogadwyedd)*

10) Os mai 'Ydw' oedd eich ateb i gwestiwn 9, rhowch eich barn am y Prawf Cadarnhau.

Efallai yr hoffech ystyried yr amseru, ble y gwnaethoch gwblhau'r Prawf, y cyfarwyddyd a roddwyd i chi ac ati.

11) A ydych wedi cynnal y Drafodaeth Strwythuredig?

Mae'r Drafodaeth Strwythuredig yn drafodaeth ffurfiol a gynhelir ar sail un-i-un neu mewn grŵp bach.

*(**Noder:** dim ond ar gyfer y cymwysterau Llythrennedd Digidol a Chyflogadwyedd y cynhelir y Drafodaeth Strwythuredig)*

☐ Ydw

☐ Nac ydw *(ewch i gwestiwn 13*

☐ Dd/G *(dewiswch os ydych yn astudio'r cymwysterau Cymhwyso Rhif neu Gyfathrebu)*

12) Os mai 'Ydw' oedd eich ateb i gwestiwn 11, rhowch eich barn am y Drafodaeth Strwythuredig.

Efallai yr hoffech ystyried yr amseru, ble y gwnaethoch gynnal y Drafodaeth, y cyfarwyddyd a roddwyd i chi ac ati.

13) A fyddai'n well gennych gymryd unrhyw un (neu ran) o'ch asesiadau yn Gymraeg?

☐ Byddai

☐ Na fyddai *(ewch i gwestiwn 15)*

14) Os mai 'Byddai' oedd eich ateb i gwestiwn 13, a ydych wedi cael y cyfle i gymryd eich asesiadau yn Gymraeg?

☐ Ydw

☐ Nac ydw

15) A oes unrhyw beth ynglŷn â'ch cymhwyster *Sgiliau Hanfodol* wedi eich atal rhag cyflawni hyd eithaf eich gallu?

☐ Oes

☐ Nac oes

Os 'Oes', eglurwch.

16) Rhowch wybod i ni a oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu rhannu ynglŷn â'ch cymhwyster *Sgiliau Hanfodol*.